

**Adroddiad y Grŵp Gorchwyl
a Gorffen ar yr Iaith Gymraeg
a Datblygu Economaidd i Gweinidog
yr Economi, Gwyddoniaeth
a Thrafnidiaeth**

Ionawr 2014



Cefnogir gan
Lywodraeth Cymru
Supported by
Welsh Government

Cynnwys

Adran	Cynnwys	Tudalen
	Rhagair gan y Cadeirydd	1
	Argymhellion	3
1	Cyflwyniad Aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Gymraeg a Datblygu Economaidd Nod y Grŵp Methodoleg Nod yr Adroddiad	8
2	Sut all y Gymraeg a dwyieithrwydd gynorthwyo twf busnes a datblygiad economaidd Arf marchnata Sgil ychwanegol Pŵer rhwydweithiau Rôl cyrff iaith Y diwydiannau Creadigol	12
3	Sut all datblygu economaidd gynorthwyo'r defnydd o'r Gymraeg Dulliau sy'n seiliedig ar ardaloedd Seilwaith Cymorth busnes	33
4	Sut all y sector cyhoeddus gynorthwyo defnydd cynyddol o'r iaith Gymraeg Caffael Grantiau	44
5	Y defnydd o ddata ar y farchnad lafur i oleuo datblygiad yr iaith yn yr economi Gymreig	46
6	Trefn lywodraethol i'r Dyfodol	47
Atodiad 1	Galw am dystiolaeth - Cyfranogwyr	49
Atodiad 2	Adroddiadau perthnasol diweddar	51

Rhagair

Braint o'r mwyaf oedd cadeirio'r grŵp gorchwyl a gorffen hwn a oedd â'r dasg o graffu ar ffyrdd y gallai'r iaith Gymraeg hybu'r economi a sut gallai'r economi, yn ei thro, hybu'r Gymraeg. Hoffwn ddiolch i aelodau eraill y grŵp am eu hamser, eu hymdrech ac am y ffordd hwyliog a diffwdan yr aethant ati i lunio'r argymhellion. Roedd y dasg yn sylweddol, y gwaith yn amrywiol, a chafwyd cryn dipyn o drin a thrafod diddorol.

Mae'r cysylltiad rhwng dyfodol yr iaith a'r economi, swyddi, cyfoeth, a lles cymunedau yn anorfod. Yn ddiweddar, profom un o'r dirwasgiadau rhyngwladol gwaethaf erioed, felly roedd hi'n amser priodol iawn i benodi'r grŵp hwn i gynghori ar y berthynas rhwng yr economi a'r iaith, a sut y gellir defnyddio'r berthynas honno er budd y naill a'r llall. Mae'r drafodaeth am sut gall yr iaith helpu i greu cyfoeth yn yr economi yn un ddifyr a dadlennol ac mae'n llawn haeddu ystyriaeth ddofn.

Mae cyflwyno'r adroddiad hwn yn cloi misoedd o drin a thrafod a phroses o gasglu dystiolaeth gan amrywiaeth o unigolion a sefydliadau. Hoffwn ddiolch o waelod calon i bawb a gymerodd ran yn y gwaith ymchwil. Fodd bynnag, mae'n rhaid i mi, hefyd, fynegi fy rhwystredigaeth gyda'r difaterwch a gafwyd gan eraill, y sawl a benderfynodd beidio ymateb – mae hyn yn drueni mawr gan y byddai eu safbwyntiau a'u barn wedi bod yn werthfawr.

Mae'r argymhellion yn eang; maent yn datblygu arferion da cyfredol; maent yn ymateb i'r dystiolaeth a gafwyd ac maent yn ffrwyth gwaith diflino a thrafodaethau maith gan y grŵp. Ein dymuniad oedd llunio argymhellion realistig; argymhellion y gellid eu cyflawni. Weithiau, i'w cyflawni, bydd angen cydweithio traws-lywodraethol. Ond, gyda phob un, y nod yw canlyniad cadarnhaol mewn perthynas â'r iaith a hybu datblygiad economaidd.

O ystyried faint o dystiolaeth a gasglwyd a'r amrywiol sylwadau a gafwyd, penderfynodd y Grŵp y dylid sicrhau eu bod ar gael i'r cyhoedd. Nid pawb oedd yn cydnabod bod angen gwaith mewn cysylltiad â'r iaith a datblygu economaidd, ac nid oedd pawb yn gefnogol i'r gwaith hwnnw. Fodd bynnag, penderfynodd y Grŵp y dylai'r sylwadau hyn fod ar gael yn eu cyfanrwydd.

I mi, er gwaetha'r rhwystredigaethau, mae'r broses wedi bod yn ddadlennol a buddiol. Hoffwn ddiolch, yn arbennig, i Swyddogion Llywodraeth Cymru am eu harweiniad, eu hamynedd a'u cymorth ymarferol amhrisiadwy.

Gobeithio y byddwch o'r farn bod yr argymhellion yn rhai ymarferol a defnyddiol ac y gallwn gymryd camau cadarnhaol i fanteisio i'r eithaf ar elfen unigryw ar ein cyfoeth naturiol.

Elin Rhys

Argymhellion

- 1 Mae dwyieithrwydd a gwerthfawrogiad o ddiwylliannau gwahanol yn rhan bwysig o strategaethau marchnata busnesau llwyddiannus ar draws y byd, sy'n cryfhau brandiau cwmnïau ac yn eu gwneud yn fwy perthnasol i gwsmeriaid lleol. Mae'r Grŵp yn argymell strategaeth i annog a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg fel erfyn marchnata ac i hyrwyddo manteision dwyieithrwydd i fusnesau.**
- 2 I adeiladu ar y defnydd cynyddol o'r Gymraeg at ddibenion hyrwyddo, brandio a marchnata ac i gryfhau'r hunaniaeth Gymreig yn y gymuned ryngwladol ehangach, mae'r Grŵp yn argymell y dylid ystyried cymell cwmnïau drwy ddefnyddio cyllid priodol o Ewrop a Llywodraeth Cymru i annog datblygiadau pellach i'r cyfeiriad hwn.**
- 3 Mae'r Grŵp yn argymell bod busnesau'n cael eu hannog i ddefnyddio'r parth ".cymru" ar y rhyngrwyd pan fydd y cyfle'n codi.**
- 4 Mae dwyieithrwydd wedi cael effaith bositif o ran annog twf sector y cyfryngau digidol a diwydiant cyfieithu proffesiynol, sy'n gwasanaethu'r farchnad Cymraeg/Saesneg yn bennaf. Mae'r Grŵp yn argymell y dylid ystyried sut y gellid defnyddio'r sylfaen sgiliau dwyieithog sy'n deillio o hyn mewn marchnadoedd cyfredol ac i ddatblygu marchnadoedd newydd.**
- 5 Mae'r dystiolaeth a gafwyd yn awgrymu bod galw am weithlu dwyieithog i fodloni anghenion busnesau a chwsmeriaid. Gellir mynd i'r afael â hyn drwy ddatblygu'r sgiliau ieithyddol a'r hyder i fodloni gofynion busnesau. I gyflawni hyn, mae'r Grŵp yn argymell y dylid ystyried ehangu'r defnydd o'r ymyriadau presennol megis model y Brocer Iaith.**
- 6 Mae'r Grŵp yn argymell y dylai fod rhagor o adnoddau i hyrwyddo arloesi, mentergarwch a gyrfaoedd posibl mewn busnes ymhlith**

myfyrwyr a phobl ifanc Cymraeg, ac y dylid ystyried yn benodol ehangu Llywyddo'n Lleol i fwy o ardaloedd.

- 7 Mae'r Grŵp yn argymhell y dylid mynd ati'n rhagweithiol i roi cyfle i fusnesau ddewis darpariaeth Gymraeg yn y rhaglenni hyfforddiant a sgiliau presennol a ariennir gan y Llywodraeth ar gyfer pobl ifanc, ee Go Wales, Twf Swyddi Cymru a chanolfannau Entrepreneuriaeth.**
- 8 Mae'r Grŵp yn argymhell y dylid ffurfio clystyrau a rhwydweithiau o fusnesau sy'n defnyddio'r Gymraeg.**
- 9 Mae'r Grŵp yn argymhell bod adnoddau'n cael eu darparu i sefydlu rhwydweithiau ar-lein a fydd yn cynnal cysylltiad â siaradwyr Cymraeg sy'n gadael Cymru i astudio neu i weithio. Bydd y rhwydweithiau hyn yn fodd i annog siaradwyr Cymraeg profiadol i ddychwelyd i Gymru ac yn codi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd sydd ar gael.**
- 10 Mae'r Grŵp yn argymhell y dylid ystyried swyddogaethau perthnasol Menter a Busnes a'r Mentrau Iaith gyda golwg ar roi cyfrifoldebau datblygu economaidd i'r Mentrau Iaith.**
- 11 Mae'r Grŵp yn argymhell y dylai Cymru ddysgu oddi wrth brofiad ac arfer da mewn cymunedau dwyieithog eraill fel gwlad y Basg, Quebec a Chatalwnia.**
- 12 Yn y blynyddoedd diweddar, mae diwydiant y cyfryngau darlledu Cymraeg wedi dirywio. Mae'r Grŵp yn argymhell y dylid ystyried asesu effaith ieithyddol ac economaidd y newid hwn, a'r canlyniadau ar gyfer cyflogaeth yn y sector hwn yn y dyfodol. Dylid rhoi ystyriaeth bellach i'r ffordd orau o gefnogi cynhyrchwyr cynnwys yng Nghymru er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd yn y farchnad ehangach ar gyfer cynhyrchu cynnwys digidol.**
- 13 Mae'r Grŵp yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru archwilio'r bygythiadau a'r cyfleoedd ar gyfer yr iaith mewn dinasoedd ac**

ardaloedd trefol o ran datblygu economaidd, gyda golwg ar ddarparu ymatebion polisi addas.

- 14 Mae'r Grŵp yn argymhell y dylid gweithredu ar y cyd ar ddatblygu economaidd a'r iaith drwy fabwysiadu dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar ardaloedd penodol. Byddai hynny'n fodd i ddynodi "parthau iaith economaidd arbennig".
- 15 Gan gydnabod llwyddiant ymddiriedolaethau datblygu cymunedol megis y Galeri, Caernarfon (Cwmni Tref Caernarfon gynt) o ran cefnogi adfywio economaidd, mae'r Grŵp yn argymhell y dylid ariannu prosiectau peilot mewn trefi yn Ardaloedd Menter Ynys Môn ac Eryri ac yn Nyffryn Teifi, a ger yr ardaloedd hynny.
- 16 Mae'r Grŵp yn argymhell addasu'r model a ddarparwyd gan Gwmni Prentisiaeth Coleg Menai er mwyn darparu prentisiaethau Cymraeg mewn busnesau sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith.
- 17 Mae'r Grŵp yn argymhell y dylai'r Gymraeg fod yn ystyriaeth wrth gyflwyno'r rhaglen Band Eang Cyflym lawn yn y dyfodol agos fel bod y busnesau hynny yn yr ardaloedd Cymraeg eu hiaith fel Dyffryn Teifi yn gallu mwynhau'r manteision sydd ar gael mewn ardaloedd yng ngogledd orllewin Cymru ar hyn o bryd.
- 18 Mae'r Grŵp yn argymhell y dylid cynnal ymchwil i archwilio effaith gwella'r rhwydwaith ffyrdd a rheilffyrdd a'r gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus sy'n rhedeg rhwng yr ardaloedd Cymraeg eu hiaith a'r canolfannau cyflogaeth ar hyd y prif goridorau.
- 19 Mae'r Grŵp yn argymhell y dylid datblygu ymhellach rôl y cymdeithasau tai o ran hyrwyddo a hwyluso datblygu economaidd mewn cymunedau.
- 20 Mae'r dystiolaeth o'r adolygiad yn awgrymu bod gwahaniaeth rhwng mentrau bach a busnesau mwy o ran eu defnydd o'r Gymraeg. Mae'r

Grŵp yn argymell y dylai fod ystod o gymorth ymarferol ar gael i fentrau bach sy'n cydnabod bod manteision masnachol i'w cael o gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg.

- 21 Nid yw'r diffiniad o fanteision cymunedol sy'n deillio o'r broses gaffael bresennol yn y sector cyhoeddus yn cyfeirio at y manteision i'r Gymraeg a siaradwyr Cymraeg. Mae'r Grŵp yn argymell y dylid ehangu'r darpariaethau'n ymwneud â sicrhau cydraddoldeb ac amrywiaeth er mwyn cynnwys yr ystyriaethau hyn.**
- 22 Mae'r Grŵp yn argymell, lle bo'n briodol, y dylai fod yn ofynnol i'r rheini sy'n tendro ar gyfer contractau yn y sector cyhoeddus ddangos eu bod yn gallu darparu gwasanaeth yn ddwyieithog, yn enwedig os yw'n cael ei ddarparu i'r cyhoedd.**
- 23 Mae'r Grŵp yn argymell y dylai fod yn ofynnol i fusnesau sy'n cael grant gan Lywodraeth Cymru ddangos eu bod yn gallu darparu gwasanaeth yn ddwyieithog. Dylai unrhyw arwyddion neu ddeunyddiau hysbysebu sy'n gysylltiedig â phrosiect sy'n derbyn cymorth grant fod yn ddwyieithog.**
- 24 Mae'r Grŵp yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n darparu adnoddau i gasglu tystiolaeth o effaith y Gymraeg ar yr economi a'r cysylltiadau rhyngddynt. Mae angen y dystiolaeth hon i argyhoeddi busnesau o fanteision gweithredu'n ddwyieithog.**
- 25 Mae'r Grŵp yn argymell sefydlu panel annibynnol a fyddai'n rhoi cyngor i'r Gweinidog ar sut y gall y Gymraeg fanteisio ar ddatblygu economaidd a chyfrannu ato, gan adeiladu ar yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiad hwn.**
- 26 Mae'r Grŵp yn cydnabod mai rôl Llywodraeth Cymru yw rhoi cefnogaeth ac arweiniad i fusnesau ar ddefnyddio'r Gymraeg a symleiddio'r broses, yn hytrach na'u gorfodi i'w defnyddio.**

27 Mae'r Grŵp yn argymhell bod y trefniadau presennol ar gyfer monitro materion cydraddoldeb yn Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn cael eu hadolygu gyda golwg ar gyflwyno dull gweithredu mwy strategol ar gyfer delio â materion yn ymwneud â'r Gymraeg, gan gynnwys y modd y mae'r Adran yn gweithio gyda busnesau.

Adran 1 Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Gymraeg a Datblygu Economaidd ac mae'n cael ei gyflwyno i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i'w ystyried.

Aelodau'r Grŵp

Aelodau'r Grŵp yw:

- Elin Rhys Rheolwr Gyfarwyddwr, TELESGOP (Cadeirydd)
- Elin Pinnell, Partner, Capital Law
- Yr Athro Dylan Jones Evans, Prifysgol Gorllewin Lloegr
- Dr Rhodri Llwyd Morgan, Prifysgol Aberystwyth
- Dr Martin Rhisiart, Prifysgol De Cymru
- Alun Shurmer, Dŵr Cymru/Welsh Water

Nod y Grŵp

Ar 6 Rhagfyr 2012, cyflwynodd y Gweinidog Ddatganiad Ysgrifenedig yn cyhoeddi y byddai'n sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen er mwyn ystyried y berthynas rhwng yr iaith Gymraeg a datblygu economaidd. Ysgogwyd hyn gan yr ymrwymiad yn Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru 2012-2017, *laith Fyw: laith Byw* i ddatblygu strategaeth glir ar gyfer nodi'r manteision y gallai'r iaith Gymraeg, fel ased economaidd, eu creu.

Y cylch gorchwyl yw:

- a) Adolygu canlyniadau Datblygu Economaidd a'r Iaith Gymraeg: Rhaglen Waith, a gyhoeddwyd yn 2004
- b) Ystyried ac argymhell ffyrdd y gallai defnyddio'r Gymraeg a dwyieithrwydd gynorthwyo twf busnes a datblygiad economaidd.

- c) Ystyried ac argymell ffyrdd y gallai datblygu economaidd helpu i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.
- d) Ystyried ac argymell ffyrdd y gallai'r sector cyhoeddus helpu i gynyddu'r defnyddio'r Gymraeg drwy ei ddylanwad economaidd lleol, yn cynnwys polisïau caffael a chyflogaeth.
- e) Y defnydd o ddata ar y farchnad lafur er mwyn nodi tueddiadau a chyfleoedd cyflogaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg yn economi Cymru.
- f) Ystyried ac amlygu enghreifftiau o arfer gorau ar gyfer cyflogaeth yr iaith Gymraeg
- g) Argymell strwythur llywodraethu ar gyfer datblygu, gweithredu a monitro strategaeth a chynllun gwaith ar gyfer y dyfodol, a fyddai'n hyrwyddo datblygu economaidd a'r Gymraeg.

Methodoleg

Gyda'r bwriad o gyflawni ei gylch gorchwyl, ac ar ôl cynnal trafodaeth gyda'r aelodaeth, mae'r Grŵp wedi penderfynu mabwysiadu dull gweithredu lle bydd yn ceisio ymgysylltu ag ystod eang o gyrrff cynrychioliadol, partïon â diddordeb ac unigolion, drwy wahodd tystiolaeth sy'n cael ei chyflwyno ar lafar, mewn lleoliadau wyneb yn wyneb a/neu drwy gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig.

Y Cylch Gorchwyl cyntaf oedd gofyniad i'r Grŵp adolygu canlyniadau Datblygu Economaidd a'r Gymraeg: Rhaglen Waith. Yn ogystal â'r ddogfen hon, mae nifer o ddogfennau polisi, astudiaethau gwerthuso ac adroddiadau ymchwil ar yr iaith Gymraeg wedi'u cyhoeddi. Mae'r adroddiadau hyn wedi hysbysu gwaith y Grŵp, ac wedi darparu cefndir a chyd-destun ar gyfer eu gwaith. Yn arbennig, mae'r Grŵp wedi nodi'r dystiolaeth a gyflwynwyd a'r canfyddiadau a gynhrychwyd yn y dogfennau sydd wedi'u rhestru yn Atodiad 2.

Yn dilyn cais am dystiolaeth rhwng 16 Mai a 21 Mehefin 2013, derbyniwyd dim ond 32 o gyflwyniadau. Ceir rhestr o'r cyfranwyr yn Atodiad 1, ac mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd ar gael yn llawn yn y papur sy'n ategu'r adroddiad hwn.

Yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2013, cytunodd y Grŵp bod angen tystiolaeth bellach er mwyn gallu llunio ymateb digonol i'w gylch gorchwyl. Cafodd y dystiolaeth hon ei chasglu gan ffynonellau a nodwyd gan aelodau'r Grŵp yn ystod mis Awst a mis Medi 2013. Gwnaed cais gan y Grŵp am ragor o dystiolaeth ar ddefnyddio'r Gymraeg gan y sector preifat.

Rhoddwyd cyflwyniadau penodol ar y trosolwg o Bolisi Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru; y Gymraeg a'r farchnad lafur; Ardaloedd Menter a Dinas-ranbarthau gan swyddogion Llywodraeth Cymru, a chafodd y Grŵp ei gynrychioli yng nghyfarfod Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ardaloedd Twf Lleol Dyffryn Teifi ar 4 Medi 2013.

Ochr yn ochr â gwaith y Grŵp hwn, roedd nifer o grwpiau eraill yn ystyried materion ynghylch y Gymraeg a/neu ddatblygu economaidd. Gwnaed cysylltiadau priodol gyda'r grwpiau hyn a bu i'r Cadeirydd fynychu cyfarfod gyda chadeiryddion y grwpiau sy'n adolygu'r ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion ac adolygu'r ddarpariaeth Cymraeg fel Ail Iaith gyda chadeiryddion y grŵp gorchwyl a gorffen, er mwyn ystyried Cymunedau Cymraeg a'r Eisteddfod Genedlaethol, a oedd wedi'u sefydlu gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd.

Ar 4 Gorffennaf 2013, ac mewn ymateb i ffigurau Cyfrifiad 2011, cyflwynodd y Prif Weinidog Y Gynhadledd Fawr, gyda'r bwriad o ymgysylltu â'r cyhoedd mewn trafodaeth genedlaethol ar ddyfodol y Gymraeg. Yr economi oedd un o'r pynciau a drafodwyd.

Mae'r argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar asesiad y grŵp o'r llenyddiaeth a restrwyd, y dystiolaeth a dderbyniwyd yn ystod ei waith a phrofiad personol aelodau'r Grŵp.

Nod yr Adroddiad

Diben yr adroddiad hwn yw darparu cyngor ac argymhellion i'r Gweinidog ar:

- Sut all y Gymraeg a dwyieithrwydd gynorthwyo twf busnes a datblygiad economaidd
- Sut all datblygu economaidd gynorthwyo'r defnydd o'r Gymraeg
- Sut all y sector cyhoeddus gynorthwyo'r defnydd cynyddol o'r iaith Gymraeg
- Y defnydd o ddata am y farchnad lafur i oleuo datblygiad yr iaith yn yr economi Gymreig.
- Trefn lywodraethol i'r dyfodol er mwyn datblygu, gweithredu a monitro strategaeth a rhaglen waith i hyrwyddo datblygu economaidd a'r iaith Gymraeg.

Canfuwyd nifer o enghreifftiau o arfer gorau yn ystod y gwaith hwn; mae'r rhain yn cael eu cyflwyno drwy'r adroddiad fel astudiaethau achos ac maent yn cyflawni chweched cylch gorchwyl y Grŵp (F).

Adran 2

Sut all y Gymraeg a dwyieithrwydd gynorthwyo twf busnes a datblygiad economaidd

Arf marchnata

- 1 Mae dwyieithrwydd a gwerthfawrogiad o ddiwylliannau gwahanol yn rhan bwysig o strategaethau marchnata busnesau llwyddiannus ar draws y byd, sy'n cryfhau brandiau cwmnïau ac yn eu gwneud yn fwy perthnasol i gwsmeriaid lleol. Mae'r Grŵp yn argymhell strategaeth i annog a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg fel erfyn marchnata ac i hyrwyddo manteision dwyieithrwydd i fusnesau.**

Mae defnyddio ieithoedd fel arf marchnata cadarnhaol wedi dod i'r amlwg mewn nifer o farchnadoedd yn ddiweddar, yn y meysydd bwyd a thwristiaeth yn wreiddiol ac wrth gynhyrchu cynnwys digidol yn fwy diweddar. Gwelwyd twf yn y defnydd o iaith mewn gwasanaethau personol a phroffesiynol ac amlygrwydd y Gymraeg wrth i ni siopa yn y siopau adrannol, allfeydd niferus a'r archfarchnadoedd mawr newydd.

Er y gallai'r defnydd newydd hwn o'r iaith yn y byd masnachol gael ei ystyried fel rhywbeth symbolaidd, yn achos bwyd o Gymru, er enghraifft, mae'r cyswllt rhwng ansawdd y cynnyrch ac ansawdd y bwyd sy'n cael ei weini ar y bwrdd wedi'i sefydlu'n gadarn ymhlith y cyhoedd. Yng Nghymru, mae hyn yn cynrychioli disgwyliad ymhlith nifer o ymwelwyr y bydd y bwyd safonol sy'n cael ei gynnig yn cynnwys llawer o gynnyrch o Gymru. Felly, dylid atgyfnerthu'r neges hon yng ngweithgareddau marchnata Croeso Cymru drwy frand cyffredin sy'n cydnabod ansawdd a thrwy fanteisio ar gyfleoedd i farchnata cynnyrch Cymru mewn ymgyrchoedd marchnata Cymru fel cyrchfan i dwristiaid.

Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu bod cyswllt uniongyrchol gyda chyflwr yr iaith Gymraeg, ond mae'r ffaith bod sefydliadau masnachol yn defnyddio'r iaith i

hyrwyddo eu cynnyrch a'u gwasanaethau yn sicr o fod yn fanteisiol i'r iaith mewn nifer o ffyrdd gwahanol.

Derbyniwyd nifer o gyflwyniadau ar y defnydd o'r iaith, yn arbennig yn y diwydiant twristiaeth a gweithgynhyrchu a marchnata bwyd. Roedd pwyslais ar geisio sicrhau bod llety i ymwelwyr, atyniadau i ymwelwyr a gweithgynhyrchwyr bwyd, yn cael eu hannog a'u cynorthwyo i ddefnyddio'r Gymraeg fel nodwedd weledol a chyffredin yn eu cynnyrch a'u hymgyrchoedd marchnata. Yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o'r iaith a'i diwylliant, gallai cyflwyno strategaeth o'r fath greu swyddi cynhyrchu deunyddiau marchnata, arwyddion, deunydd pacio ac yn y blaen.

Yn achos y cynhyrchion hynny sydd eisoes yn adnabyddus oherwydd ansawdd neu unigrywiaeth y cynnyrch, mae angen sicrhau bod y gymuned ehangach yn derbyn manteision economaidd, sydd eisoes yn digwydd yn yr ardaloedd sy'n cynhyrchu gwin ar draws y byd. Byddai'r canlyniadau nid yn unig yn cynyddu nifer yr ymwelwyr a'r cyfleoedd entrepreneuriaidd, byddent hefyd yn cynyddu ymwybyddiaeth o'r iaith. Mae Caws Cenarth yn Nyffryn Teifi; Halen Môn ar Ynys Môn; gwinllan Pant Du yn Nyffryn Nantlle a Distyllfa Penderyn yn bedair enghraifft yn unig o ddefnyddio bwyd a diod yn y dull hwn.

Ochr yn ochr ag annog y defnydd o'r iaith mewn sefyllfaoedd busnes bob dydd, credwn fod angen strategaeth a fydd yn annog ac yn hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg fel dull marchnata effeithiol, yn arbennig ymhlith busnesau bach a chanolig, a fydd yn pwysleisio'r manteision masnachol o wneud hynny.

Mae'r Grŵp yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn casglu safbwyntiau ar hyn o bryd ar gynllun gweithredu arfaethedig i ddatblygu'r sector bwyd a diod yng Nghymru. O ystyried y sylwadau uchod, mae'n siomedig nad oes cyfeiriad at yr iaith Gymraeg yn y ddogfen hon, ac mae'n gobeithio y bydd cyfraniad a phwysigrwydd yr iaith yn derbyn cydnabyddiaeth haeddiannol ac yn cael ei chynnwys yn y Cynllun terfynol.

2 I adeiladu ar y defnydd cynyddol o'r Gymraeg at ddibenion hyrwyddo, brandio a marchnata ac i gryfhau'r hunaniaeth Gymreig yn y gymuned ryngwladol ehangach, mae'r Grŵp yn argymhell y dylid ystyried cwmnïau drwy ddefnyddio cyllid priodol o Ewrop a Llywodraeth Cymru i annog datblygiadau pellach i'r cyfeiriad hwn.

Mae natur unigryw'r Gymraeg, a'r ffaith ei bod yn un o'r ieithoedd hynaf yn Ewrop yn golygu bod ganddi ei gwerth brand ei hun a allai greu manteision masnachol i fusnesau. Er nad oes defnydd eang o'r iaith Gymraeg ymhlith cwmnïau yng Nghymru, mae yna gwmnïau rhyngwladol sydd wedi'i defnyddio fel rhan o'u cynnig cystadleuol i gwsmeriaid o amgylch y Byd. Er enghraifft, mae brandiau rhyngwladol megis Dŵr Tŷ Nant a Chwisgi Penderyn yn defnyddio enwau Cymraeg i adlewyrchu tarddiad lleol y cynnyrch a chreu ymdeimlad o le yn eu cynnig. Er gwaethaf yr enghreifftiau hyn, mae angen mwy o ymdrech i annog busnesau eraill i ddefnyddio'r Gymraeg fel nodwedd sy'n eu gwneud yn wahanol i frandiau eraill mewn marchnad sy'n gynyddol fyd-eang, yn arbennig o gymharu â'r gwledydd Ewropeaidd sy'n defnyddio ieithoedd lleiafrifol fel ffordd o wahaniaethu eu cynnig busnes a chynnig manteision marchnata hollbwysig.

Er enghraifft, mae Foras na Gaeilge – y corff sy'n gyfrifol am hyrwyddo'r iaith Wyddeleg ar hyd a lled Iwerddon – wedi nodi bod yr iaith Wyddeleg wedi datblygu i fod yn bwynt gwerthu unigryw i fusnesau mewn sawl ffordd. Mae hyn yn bennaf drwy ddulliau brandio a marchnata, yn arbennig cyfathrebu gweledol, deunyddiau corfforaethol (papur pennawd, cardiau busnes, anfonebau ac yn y blaen), arwyddion (allanol a mewnol) a deunyddiau marchnata (argraffedig ac electronig). Mae hyn yn galluogi busnesau i elwa ar y defnydd o'r iaith Wyddeleg, waeth pa mor rhugl y mae'r staff neu'r cleientiaid yn yr iaith. Hefyd, mae rhai busnesau yn Iwerddon sy'n gweithredu'n rhyngwladol wedi defnyddio dulliau brandio Gwyddeleg/Saesneg er mwyn creu synergedd rhwng delwedd y cwmni ac enw da nwyddau o Iwerddon mewn marchnadoedd dramor, yn arbennig mewn gwledydd lle mae cynrychiolaeth uchel o Wyddelod.

Mae tystiolaeth hefyd yn lwerddon¹ bod agwedd gadarnhaol ymhlith defnyddwyr at brynu cynnyrch bwyd sy'n cynnwys geiriau Gwyddeleg ar y pecynnau, yn ogystal â geiriau Saesneg. Mae hyn yn ganfyddiad pwysig o ystyried pwysigrwydd sicrhau bod cwmnïau o Gymru yn gwerthu mwy o nwyddau i ddefnyddwyr yng Nghymru drwy archfarchnadoedd a siopau eraill.

Yn nhermau sicrhau bod polisïau ar waith er mwyn annog mwy o ddefnydd o'r iaith Gymraeg ar gyfer brandio a hyrwyddo ymhlith busnesau yng Nghymru, mae Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru yn credu y bydd cyfle i ddefnyddio cronfeydd strwythurol yr Undeb Ewropeaidd i sicrhau bod gan fusnesau bach y capasiti i gyflenwi gwasanaethau i'r safonau sy'n cael eu pennu gan Lywodraeth Cymru. Hefyd, mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cyhoeddi papur sy'n trafod y defnydd posibl o'r Gymraeg er mwyn gwireddu nodau rhaglenni cyllid Ewropeaidd 2014-2020 lle mae'n nodi nifer o ymyriadau posibl ar ddefnyddio'r iaith Gymraeg ym myd busnes.

Mae'r mesurau hyn yn ategu nifer o awgrymiadau eraill sy'n gysylltiedig â defnyddio cyllid Ewropeaidd i ariannu gweithgareddau, ac mae nifer ohonynt yn cael eu trafod neu eu cefnogi yn y ddogfen hon. Fodd bynnag, dylid sicrhau bod mesurau penodol hefyd ar gyfer datblygu mwy o ymwybyddiaeth o frandio dwyieithog yng Nghymru ac ymyriadau penodol a fyddai'n cefnogi eu cyflwyno. Gallai'r rhain gynnwys mabwysiadu model lwerddon o ddarparu arian cyfatebol i'r busnesau hynny gynhyrchu arwyddion dwyieithog a/neu ddeunydd marchnata dwyieithog.

Felly, mae'r Grŵp yn annog proses o nodi ffyrdd i ddefnyddio cyllid Ewropeaidd er mwyn gweithredu'r datblygiadau a'r gwasanaethau y mae wedi'u hargymell.

3 Mae'r Grŵp yn argymhell bod busnesau'n cael eu hannog i ddefnyddio'r parth ".cymru" ar y rhyngrwyd pan fydd y cyfle'n codi.

¹Bilingualism on Food Packaging — DIT (2010) Bilingualism on Food Packaging - Researching the Potential, Dublin.
http://www.gaeilge.ie/dynamic/file/Samh09_Taighde%20ar%20Phacistoicht%20%20Dtheangachas_DIT1.pdf

Mae The Internet Corporation for Assigned Names and Numbers (ICANN) wedi penderfynu caniatáu'r ystod lawn o enwau parth lefel uchaf cyffredinol y tu hwnt i ôl-ddodiaid cyfeiriadau rhyngrwyd penodol megis ".com" a ".co.uk".

Mae cofrestrydd enwau dielw'r DU, Nominet, yn bwriadu gwneud cais i ICANN for ar gyfer yr enwau parthau lefel uchaf .wales a .cymru. Mae Nominet yn ariannu'r ceisiadau ac, os bydd yn llwyddiannus, mae'r sefydliad wedi gwneud ymrwymiad i agor swyddfa newydd yng Nghymru i weinyddu'r enwau parthau a bydd yn buddsoddi unrhyw elw mewn prosiectau cymunedol yng Nghymru.

Ym mis Mai 2012, cytunodd Llywodraeth Cymru i gefnogi cais Nominet i ICANN, ar gyfer y Ddau Enw Parth Lefel Uchel, .cymru a .wales ar gyfer ein gwlad, ac yr oeddent yn cytuno y byddai presenoldeb o'r fath ar y rhyngrwyd yn helpu'r ymdrechion i hyrwyddo Cymru ar draws y byd ac er mwyn datblygu e-fasnach.

Sgil ychwanegol

- 4 Mae dwyieithrwydd wedi cael effaith bositif o ran annog twf sector y cyfryngau digidol a diwydiant cyfieithu proffesiynol, sy'n gwasanaethu'r farchnad Cymraeg/Saesneg yn bennaf. Mae'r Grŵp yn argymhell y dylid ystyried sut y gellid defnyddio'r sylfaen sgiliau dwyieithog sy'n deillio o hyn mewn marchnadoedd cyfredol ac i ddatblygu marchnadoedd newydd.**

Derbyniwyd nifer o gyflwyniadau ar harneisio sgiliau dwyieithog er budd busnesau.

Mae'r galw am wasanaethau cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg, ac fel arall, wedi arwain at sefydlu a datblygu diwydiant cyfieithu sydd wedi addasu technoleg wrth iddo ddatblygu, i ddarparu gwasanaeth sydd gystal ag unrhyw wasanaeth tebyg yn y byd. Drwy ehangu'r farchnad i gynnwys ieithoedd eraill, gellir defnyddio'r arbenigedd yn y sector a'r dechnoleg sydd ar gael, i gystadlu mewn marchnadoedd eraill, a fydd yn creu mwy o gyfleoedd cyflogaeth yng Nghymru.

Mae'n ymddangos bod achos cryf dros uno cwmnïau llai er mwyn creu cwmnïau mwy sydd â mwy o fàs critigol ac adnoddau.

Cyflwynwyd tystiolaeth i'r perwyl hwn gan yr Uned Technolegau Iaith ym Mhrifysgol Bangor

“...fodd bynnag mae'r diwydiant yn dal yn fach ac yn dameidiog, heb fanteisio i'r eithaf ar dechnolegau hwyluso cyfieithu na busnes blaengar i gynyddu'u cyfran o'r farchnad. O'r herwydd mae asiantaethau cyfieithu o'r tu allan i Gymru yn medru cystadlu'n llwyddiannus am gontractau cyfieithu Cymraeg/Saesneg, gyda'r elw yn llifo allan o Gymru. Nid yw'r diwydiant ychwaith wedi ehangu llawer i ieithoedd eraill, nac i sefyllfaoedd lle mae angen cyfieithu i nifer helaeth o ieithoedd yr un pryd.

Credwn fod angen i Lywodraeth Cymru gefnogi'r diwydiant cyfieithu Cymraeg yng Nghymru. Credwn yn ogystal bod angen i'r sector cyhoeddus Cymreig caffael gwasanaethau cyfieithu gan gwmnïau o Gymru gan helpu i'r diwydiant datblygu ac i gystadlu yn y farchnad amlieithog ehangach. Fel hyn gwelir cefnogi dwyieithrwydd yng Nghymru nid fel baich economaidd ond yn hytrach yn gyfle masnachol....”

- 5 Mae'r dystiolaeth a gafwyd yn awgrymu bod galw am weithlu dwyieithog i fodloni anghenion busnesau a chwsmeriaid. Gellir mynd i'r afael â hyn drwy ddatblygu'r sgiliau ieithyddol a'r hyder i fodloni gofynion busnesau. I gyflawni hyn, mae'r Grŵp yn argymhell y dylid ystyried ehangu'r defnydd o'r ymyriadau presennol megis model y Brocer Iaith.**

Er y gall rhai unigolion fod yn gwbl ddwyieithog, nid oes ganddynt yr hyder yn aml wrth ddefnyddio'r Gymraeg i wneud cais am swyddi sy'n cynnwys gofyniad i siarad y Gymraeg. Bydd nifer o'r swyddi hyn yn y sector cyhoeddus, ond mae yna enghreifftiau o gyflogwyr llwyddiannus yn y sector preifat yn gofyn am y gallu i siarad Cymraeg.

Astudiaeth Achos: Ceir Cymru, Gwynedd a Conwy

Cyflwynwyd tystiolaeth gan y cwmni sy'n disgrifio ei athroniaeth fusnes:

Mae ein polisi (sydd ddim wedi ei roi ar bapur!) yn syml. Mae bob agwedd ar y busnes yn cael ei weinyddu a'i reoli drwy gyfrwng y Gymraeg. Ni fyddwn yn cyflogi neb di-gymraeg - byddai un allan o 15 o'r staff yn gallu difetha ethos a hwyl ieithyddol naturiol y gweithle. 'Rydym yn disgwyl i werthwyr a chynghorwyr ateb y ffôn a chyfarch cwsmeriaid yn Gymraeg, boed y rheiny yn Gymry ai pheidio. 'Rydym yn sicrhau fod hynny'n cael ei wneud yn gwrtais a hwyliog. Mae gennym bolisi o geisio helpu dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg gan fod 80% o bobl y cylch yn deall Cymraeg ac o leiaf 70% yn ei siarad yn naturiol. Gwnawn ein biliau mewn Cymraeg ond mae ambell fecanic/technegydd yn llunio rhai o'r biliau. Mae'n anodd yn rhyfedd iawn i'w cael nhw i sgwennu bil yn Gymraeg.

Dros y blynyddoedd mae miloedd o Saeson wedi prynu ceir gennym ac wedi rhyfeddu a dotio at ein defnydd o'r Gymraeg. Mae llawer hyd yn oed yn eiddigeddus o hyn ac yn ystrydebu eu colled gyda brawddegau fel "I wish I would have learnt Welsh at school/I wish I could speak Welsh".

Ym mis Awst 2008, gyda'r nod o fynd i'r afael â'r angen o gynyddu lefelau hyder y gymuned yn gyffredinol ar ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith, ac i ddiwallu nifer o ofynion eraill, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'n sefydlu'r prosiect Brocer Iaith yn ward Pabell yng Nghaernarfon, lle'r oedd cyfran uchel iawn o'r boblogaeth yn ddwyieithog, ond a oedd hefyd yn dioddef lefelau uchel o amddifadedd.

Astudiaeth Achos: Brocer Iaith Pabell

Nid oedd y prosiect yn bwriadu cyflwyno unrhyw fentrau newydd ond yn hytrach roedd yn bwriadu harneisio prosiectau a rhaglenni a oedd eisoes yn bodoli gyda'r bwriad o wella cyflogadwyedd y trigolion lleol, yn benodol y cyfleoedd cyflogaeth sy'n galw am lefelau amrywiol o allu yn yr iaith Gymraeg. Roedd llawer o'r gweithgareddau yn ymwneud â magu hyder a datblygu sgiliau a fyddai'n rhoi cyfle gwell i'n cleientiaid

gystadlu yn y gweithle. Rhoddwyd sylw penodol i wella sgiliau TG yn ogystal â chynnig rhagflas o fentrau iddynt ac i redeg busnes. Roedd cyfres o leoliadau gwaith ar gael hefyd.

Roedd gwerthusiad a gynhaliwyd yn 2012, ac erbyn hynny roedd mwy na 400 o unigolion wedi'u cynorthwyo, yn cynnwys argymhellion:

- y dylai'r gwaith ganolbwyntio ar y trigolion
- y dylai'r brocer fod yn gweithio mewn sefydliad lleol a oedd yn weithgar mewn meysydd cymunedol, economaidd ac adfywio ieithyddol
- bod angen diffinio'r ardal weithredol gan ganolbwyntio'n benodol ar yr ardal breswyl berthnasol gan sicrhau ar yr un pryd, eu bod yn cydnabod bod y dalgylch economaidd naturiol (y lleoliad gwaith) yn debygol o fod yn llawer mwy
- bod angen i'r gweithgareddau fod yn seiliedig ar gyswllt unigol yn cynnwys cymorth un i un, cyrsiau a lleoliadau

Roedd yr adroddiad yn datgan y dylid parhau i ariannu'r prosiect er mwyn sicrhau'r budd mwyaf ac er mwyn diogelu'r buddsoddiad gwreiddiol; ei fod yn cau bwlch ar gyfer datblygu sgiliau yr oedd galw amdanynt; y dylid dosbarthu'r profiad mor eang â phosibl er mwyn annog creu clwstwr/rhwydwaith ehangach o arfer da; ac y dylid cysylltu'r gwaith â'r agenda ehangach o gysylltu cyflogwyr â datblygiad sgiliau a datblygiad ieithyddol.

Hwyrach mai'r prif argymhelliad oedd, drwy ddyfalbarhau gyda'r gwaith yn ward Peblig a'r gymuned ehangach, y dylid trin yr ardal fel labordy ar gyfer gweddill Cymru. Byddai hyn yn sicrhau y gellir dysgu gwersi yn yr hirdymor ac y gellir datblygu technegau mwy effeithiol gyda'r gallu i rannu profiadau gydag ardaloedd eraill.

Ymhlith yr enghreifftiau o brosiectau llwyddiannus roedd

- pecyn cymorth MENTRO, pecyn o gymorth wedi'i gynllunio i helpu trigolion Peblig i droi eu syniadau yn arian parod drwy ddefnyddio'r sgil arbennig a oedd ganddynt eisoes, sef yr iaith Gymraeg. Cafodd y gwaith ei gynllunio mewn cydweithrediad â TJB Cymru Cyf. Mae'n cynnwys canllawiau a gwybodaeth am yr

help sydd ar gael, ynghyd ag enghreifftiau o drigolion sydd wedi mentro a llwyddo.

- Modiwlau Sgiliau Sylfaenol Cymraeg ymarferol, a ddatblygwyd gyda Choleg Menai mewn ymateb i'r sefyllfa ieithyddol yn ward Peblig ac fel ffordd o helpu trigolion i chwilio am waith. Cynhaliwyd rhaglen beilot yn cynnig lleoliadau gyda chyflogwyr a busnesau Cymreig. Mae datblygiadau pellach yn cael eu cynllunio.

Mae'n bosibl priodoli llawer o lwyddiant enghraifft Peblig i'r ffaith mai'r gymdeithas tai leol oedd yn cynnal y prosiect. Pe byddai'r ward yn cael ei ddefnyddio fel labordy a/neu'n cael ei ymestyn i weddill Cymru, byddai'n hollbwysig sicrhau bod y math hwn o gymorth ar gael yn gyfleus.

Dylid manteisio ar ddwyieithrwydd, a'r gwerthfawrogiad o amlieithrwydd a ddaw yn sgîl hynny, drwy ddatblygu sgiliau ieithyddol y gweithle er mwyn diwallu gofynion busnesau sy'n chwilio am sgiliau o'r fath.

6 Mae'r Grŵp yn argymhell y dylai fod rhagor o adnoddau i hyrwyddo arloesi, mentergarwch a gyrfaoedd posibl mewn busnes ymhlith myfyrwyr a phobl ifanc Cymraeg, ac y dylid ystyried yn benodol ehangu Llwyddo'n Lleol i fwy o ardaloedd.

Roedd nifer o'r trigolion wedi cyflwyno syniadau ar y ddarpariaeth addysg a phwysigrwydd sicrhau bod y Gymraeg yn berthnasol wrth ddefnyddio technolegau ac arferion gwaith newydd. Roedd cyflwyniadau eraill yn gwneud pwyntiau cyffredinol perthnasol, a phwysleisiwyd pwysigrwydd sicrhau nad yw'r ffaith bod myfyrwyr yn siarad Cymraeg, p'un a ydynt wedi'u haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ai peidio, yn golygu nad ydynt yn cael eu hamlygu i arloesedd, entrepreneuriaeth a byd busnes.

Astudiaeth Achos: Llwyddo'n Lleol

Mae Llwyddo'n Lleol yn cynrychioli prosiect arloesol gwerth £3.8 miliwn sy'n ceisio helpu pobl ifanc yng Ngogledd-orllewin Cymru i ddatblygu eu gyrfaedd ac i lwyddo yn eu cymunedau.

Roedd y prosiect yn bartneriaeth gydag awdurdodau lleol Ynys Môn, Conwy a Sir Ddinbych, gyda Chyngor Gwynedd yn gweithredu fel y corff arweiniol, ac roedd wedi'i gynllunio ar gyfer pobl ifanc 11-19 oed sy'n byw yng Ngogledd-orllewin Cymru er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r broblem sy'n wynebu ardaloedd gwledig sy'n dioddef yn enbyd oherwydd bod pobl ifanc yn allfudo a phobl hŷn yn mewnfudo i ymdeol mewn ardal wledig dawel a heddychlon.

Roedd y prosiect hwn yn ceisio lleihau'r llif hwn drwy gyfres o weithgareddau arloesol a oedd wedi'u cynllunio i ddatblygu sgiliau a hyder pobl ifanc yn y cyfleoedd sydd ar gael i weithio ac i fyw yn eu cymunedau eu hunain drwy:

- Cynyddu hyder pobl ifanc yn eu cymunedau a'r dyfodol y gallant ei gynnig
- Cynyddu ymwybyddiaeth o gyfleoedd cyflogaeth a hunangyflogaeth yn y sectorau sy'n tyfu
- Meithrin ymagwedd gallaf wneud ymhlith y bobl ifanc ac annog ein cenhedlaeth ifanc i ystyried hunangyflogaeth a chreu menter fel dewis gyrfa ymarferol a chyffrous
- Datblygu sgiliau menter ar gyfer cyflogaeth neu hunangyflogaeth.

Roedd gwerthusiad hanner tymor Llwyddo'n Lleol yn datgan: bod y prosiect yn mynd rhagddo'n dda ar lefel ranbarthol, gyda pherfformiad da yn erbyn allbynnau a chanlyniadau. Mae yna dystiolaeth o gyflenwi effeithiol ac effeithlon, gyda rhywfaint o gyfleoedd i wella rhai elfennau o'r rhaglen (e.e. bwrsariaethau) a rhai o'r cydnoddwyr. Mae gan y rhaglen gynllun strategol da ac mae'n arddangos rhywfaint o dystiolaeth o effaith ar y cam hwn, er bod angen gwneud mwy o waith er mwyn gallu casglu dystiolaeth bellach ar effaith erbyn y gwerthusiad crynodol.

Mae'n rhaid rhoi ystyriaeth i unrhyw argymhellion o ran gwelliannau a fydd yn cael eu nodi yn adroddiad gwerthuso Terfynol y Prosiect os bydd ei gwmpas daearyddol yn cael ei ymestyn, yn unol â'r argymhelliad.

Mae'r Grŵp yn ymwybodol ac yn gwerthfawrogi Syniadau Mawr Cymru, yr ymgyrch gyfathrebu sy'n cael ei rheoli gan Lywodraeth Cymru, ac sy'n ceisio annog pobl ifanc i fod yn fwy entrepreneuraidd. Mae'r Grŵp hefyd yn ymwybodol o'r ddarpariaeth amrywiol sydd ar gael ac a allai ymateb i'r materion a godwyd yn y cyflwyniadau amrywiol.

Gan werthfawrogi bod y Cynllun Entrepreneuriaeth Ieuenctid a'r ddarpariaeth gysylltiedig wedi bod yn destun craffu gan y Cynulliad Cenedlaethol yn ddiweddar, mae'r Grŵp yn argymhell y dylid cynnal asesiad o argaeledd y ddarpariaeth amrywiol sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. O'r pryderon a fynegwyd yn nifer o'r cyflwyniadau nad yw'r cymorth sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a llwyddiant y cyfranogwyr yn derbyn llawer o gyhoeddusrwydd, dylid ystyried y dull mae'r cymorth hwn yn cael ei gynnig drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae tystiolaeth academaidd (Jones-Evans ac eraill 2011) hefyd yn cefnogi'r defnydd o entrepreneuriaid Cymraeg llwyddiannus fel enghreifftiau ymarferol i annog pobl ifanc i ddechrau eu busnesau eu hunain.

Hefyd, dylid ystyried darparu hyfforddiant Cymraeg mewn ardaloedd sy'n draddodiadol Saesneg, sy'n profi cynnydd yn y galw am addysg cyfrwng Cymraeg (Caerffili a'r Rhondda er enghraifft).

Fel y dywedodd un sylwebydd, "... mae datblygiad economaidd yn hollbwysig er mwyn darparu cyfleoedd cyflogaeth a fydd yn annog pobl, pobl ifanc yna arbennig, i aros yn eu cymunedau ac yng Nghymru yn gyffredinol, yn hytrach nac allfudo i ardaloedd eraill. Mae'r broblem hon yn arbennig o ddwys i'r cymunedau hynny sydd â chyfran uchel o siaradwyr Cymraeg...."

7 Mae'r Grŵp yn argymhell y dylid mynd ati'n rhagweithiol i roi cyfle i fusnesau ddewis darpariaeth Gymraeg yn y rhaglenni hyfforddiant a sgiliau presennol a ariennir gan y Llywodraeth ar gyfer pobl ifanc, ee Go Wales, Twf Swyddi Cymru a chanolfannau Entrepreneuriaeth.

Mae'r Grŵp yn cydnabod pwysigrwydd cynyddu ymwybyddiaeth o entrepreneuriaeth ymhlith siaradwyr Cymraeg ifanc a phobl eraill sy'n ystyried dechrau busnes newydd, gyda phwyslais ar bwysigrwydd darpariaeth Gymraeg wrth ddarparu rhaglenni amrywiol i'r rhai sy'n ystyried dechrau busnes fel dewis gyrfa. Mae'r Grŵp yn cydnabod bod cyflenwi gwasanaethau o'r fath yn gwbl ddwyieithog yn galw am gronfa o bobl fusnes gyda phrofiad addas, ac mae'n argymhell y dylid nodi a recriwtio unigolion sy'n gallu siarad Cymraeg i rannu eu harbenigedd ac arfer da, a defnyddio eu profiad hwy o fyd busnes, fel blaenoriaeth ar gyfer cyflenwi'r Rhaglenni hyn.

Er mwyn i'r bobl sy'n ymgymryd â'r hyfforddiant a'r rhaglen fentora hon fod ar eu hennill, dylid darparu cyfleoedd i roi'r hyn maent wedi'i ddysgu ar waith mewn amgylchedd busnes sy'n galw am allu dwyieithog neu lle mae'r defnydd o'r Gymraeg yn cael ei annog.

Astudiaeth Achos: Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

“...Rhywbeth gwerthfawr i ni (ac i eraill rwy'n siŵr) fyddai, er enghraifft, lleoliadau/llysgenhadon myfyrwyr ar gyfer yr iaith Gymraeg sy'n cael eu talu i weithio yn yr Ardd am gyfnod o 10 wythnos, dyweder. Rhyw fath o gynllun Go-Wales (neu fath arall) ar gyfer, er enghraifft gwyliau'r haf/Pasg (gellir dosbarthu'r wythnosau ar hyd y flwyddyn drwy gytundeb gyda'r sefydliad a'r myfyriwr/Prifysgol). Byddai'n werthfawr iawn i ni allu cynnig lleoliad gwaith/swyddi gwyliau amrywiol iawn ar draws y sefydliad. Gallai'r rhain gynrychioli briff penodol o gefnogi/hyrwyddo/datblygu'r defnydd o'r Gymraeg mewn sefydliadau...”

Pŵer rhwydweithiau

8 Mae'r Grŵp yn argymhell y dylid ffurfio clystyrau a rhwydweithiau o fusnesau sy'n defnyddio'r Gymraeg.

Codwyd pwysigrwydd sefydlu rhwydweithiau effeithiol o fusnesau sy'n gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg ac sy'n ceisio cyflogi staff dwyieithog gan nifer o'r ymatebwyr, gydag awgrym bod angen brys i fonitro'r galw am gyflogeion dwyieithog. Mae'n bosibl cyflawni hyn drwy sefydlu Arsyllfa'r Farchnad Lafur Gymraeg neu gynllun tebyg a allai gydgysylltu'r ymdrechion i hysbysebu cyfleoedd swyddi, ond a fyddai hefyd yn cyfrannu at waith cynllunio'r gweithlu, cynllunio olyniaeth a chynllunio darpariaeth datblygu'r gweithlu er mwyn iddo allu adlewyrchu'r galw am sgiliau dwyieithog.

Astudiaeth Achos: Cwlwm Busnes Caerdydd

Mae Cwlwm Busnes Caerdydd yn grŵp busnes iaith Gymraeg, sy'n rhoi cyfle i bobl fusnes o bob sector, yng Nghaerdydd a thu hwnt, gwrdd, rhwydweithio a thrafod materion busnes drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r sefydliad yn cydnabod y galw cynyddol am siaradwyr Cymraeg i lenwi swyddi gwag a galw am fforwm fel Cwlwm Busnes sy'n rhoi cyfle i bobl fusnes rwydweithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Nid yw Cwlwm Busnes yn ceisio gwneud elw ond, yn hytrach, mae'n ceisio galluogi ei aelodau i elwa ar fusnes newydd, hwyluso cyfleoedd i sicrhau contractau newydd, ac annog ei aelodau i elwa ar sgiliau eraill. Mae'n cael ei ariannu gan ei aelodau a'i noddwyr. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd, ac maent fel arfer yn gwahodd siaradwyr o fydd busnes i'w mynychu.

Ni fwriedir i arian cyhoeddus gael ei ddefnyddio ar gyfer sefydliadau rhwydweithio o'r fath, yn hytrach dylent ariannu eu hunain.

9 Mae'r Grŵp yn argymhell bod adnoddau'n cael eu darparu i sefydlu rhwydweithiau ar-lein a fydd yn cynnal cysylltiad â siaradwyr Cymraeg sy'n gadael Cymru i astudio neu i weithio. Bydd y rhwydweithiau hyn yn fodd i annog siaradwyr Cymraeg profiadol i ddychwelyd i Gymru ac yn codi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd sydd ar gael.

Yn ogystal â cheisio cadw siaradwyr Cymraeg yn eu cymuned, mae dyhead hefyd i ddenu siaradwyr Cymraeg sy'n gweithio y tu allan i Gymru i ddychwelyd i Gymru i weithio. Cydnabyddir nad oes ateb syml i'r sefyllfa hon a bod angen bod angen i'n disgwyliadau fod yn realistig, yn arbennig oherwydd un o'r prif ofynion yn aml yw argaeledd swyddi addas yng Nghymru.

Nid yw'r Cyfrifiad yn gofyn am wybodaeth am siaradwyr Cymraeg sy'n byw y tu allan i Gymru, felly mae'n amhosibl casglu gwybodaeth gywir am nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n byw yn Lloegr, er enghraifft. Er hynny, defnyddiwyd yr hyn a elwir yn Astudiaeth Hydredol, sy'n cael ei chyhoeddi gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol gan ddefnyddio data o Gyfrifiad 2001, mewn gwaith ymchwil ar gyfer Bwrdd yr Iaith Gymraeg, a oedd wedi cyfrifo bod tua 110,000 o siaradwyr Cymraeg yn byw yn Lloegr, sydd felly'n cynrychioli 17% o gyfanswm y siaradwyr Cymraeg sy'n byw yn y DU. Mae hyn yn cymharu â gwaith ymchwil cynharach gan S4C a oedd wedi darparu amcangyfrif o 133,000 o siaradwyr Cymraeg, gyda thua 50,000 ohonynt yn byw yn ardal Llundain. Ar y sail bod dosbarthiad oedran siaradwyr Cymraeg yn adlewyrchu dosbarthiad oedran siaradwyr Cymraeg yn gyffredinol ym mhoblogaeth Lloegr, mae bron i hanner ohonynt yn y grŵp oedran 25-59, sy'n gyfran llawer uwch na'r hyn sy'n cael ei adlewyrchu yn y boblogaeth gyfan.

Er bod y pwyslais ychydig yn wahanol am resymau hanesyddol a daearyddol, mae llywodraeth Iwerddon wedi gwneud ymdrech benodol i apelio i'r Gwyddelod sydd ar wasgar i ddychwelyd i Iwerddon, a gallai fod yn ddefnyddiol archwilio eu profiadau hwy. Byddai hefyd yn bosibl gwneud gwaith pellach gyda sefydliadau addysg uwch i adeiladu ar Go Wales, a byddwn yn argymhell hynny.

Hyd yn oed gyda'r ewyllys gorau yn y byd, rydym yn cydnabod bod y gallu i chwilio am gyfleoedd busnes a chyflogaeth, a phresenoldeb marchnad ddeniadol, ymhlith y ffactorau a fydd yn dylanwadu ar benderfyniadau sy'n ymwneud â lleoliadau.

Yn ystod y drafodaeth, awgrymwyd bod profiad prosiect "Llwybro" wedi defnyddio model defnyddiol ar gyfer dull o fynd i'r afael â rhai o'r materion a nodwyd yn y dystiolaeth ysgrifenedig a llafar a gyflwynwyd.

Dylid ystyried y ffordd y gellir diweddarau'r prosiect i ystyried datblygiadau digidol.

Astudiaeth Achos: Llwybro

Roedd Llwybro yn brosiect sy'n cael ei ariannu'n gyhoeddus a sefydlwyd i ymateb i bobl ifanc yn allfudo o Gymru wledig. Cafodd y prosiect ei sefydlu fel prosiect peilot ym 1998 i fynd i'r afael â'r broblem yng Nghanolbarth Cymru a chafodd ei ymestyn drwy Gymru wledig yn 2004.

Prif genhadaeth Llwybro oedd hyrwyddo aros yng Nghymru wledig, neu ddychwelyd i Gymru wledig fel opsiwn deniadol a hyfyw.

Roedd prif weithgareddau'r prosiect yn cynnwys paratoi a chynnal a chadw cronfa ddata gynhwysfawr o bobl, sydd wedi'u haddysgu yng Nghymru, gyda'r bwriad o:

- Orlhain datblygiad gyrfa a ffordd o fyw pobl ifanc
- Helpu pobl i gynnal cysylltiadau gyda'u cymunedau
- Ysgogi pobl i symud yn ôl i Gymru
- Cyfateb pobl ifanc gydag anghenion sgiliau cyflogwyr
- Darparu marchnad bosibl ar gyfer nwyddau a gwasanaethau sy'n cael eu cyflenwi gan fusnesau yng Nghymru

Roedd gan Llwybro wefan a newyddlen hefyd sy'n darparu:

- Cysylltiadau uniongyrchol i gyfleoedd swyddi yn cynnwys tudalennau Swyddi
- Cyngor, gwybodaeth a chysylltiadau ymarferol
- Cyfleuster i aelodau gofrestru a diweddarau eu manylion ar-lein
- Adran newydd 'Gwybodaeth i Gyflogwyr'

- Astudiaethau achos o bobl ifanc sydd wedi aros neu wedi symud yn ôl ac wedi llwyddo yn eu meysydd
- Dyddiadur digwyddiadau
- Manylion cyswllt i gael cymorth

Rôl cyrff iaith

10 Mae'r Grŵp yn argymhell y dylid ystyried swyddogaethau perthnasol Menter a Busnes a'r Mentrau Iaith gyda golwg ar roi cyfrifoldebau datblygu economaidd i'r Mentrau Iaith.

Mae Menter a Busnes yn disgrifio ei hun fel cwmni datblygu economaidd annibynnol, a sefydlwyd ym 1989, sy'n helpu siaradwyr Cymraeg a phobl yng Nghymru i gyfrannu at ddatblygu'r economi yng Nghymru. Mae'n gweithredu ar hyn o bryd yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, yn cynllunio ei raglenni cymorth ei hun ar gyfer busnesau, entrepreneuriaeth, sgiliau a datblygu arloesedd a chyflenwi rhaglenni cymorth busnes ar ran sefydliadau cenedlaethol a rhanbarthol eraill, yn cynnwys Llywodraeth Cymru.

Er bod y sefydliad wedi'i sefydlu'n wreiddiol gyda chylch gwaith i hyrwyddo menter ymhlith siaradwyr Cymraeg, gyda chefnogaeth arian cyhoeddus, wrth i'r cymorth hwn leihau, roedd y sefydliad o'r farn bod angen ail-ddiffinio ei bwrpas.

Penderfynwyd mai'r ffordd orau o gyflawni hyn fyddai drwy wneud cyfraniad ymarferol i'r economi. Hynny yw, byddai Menter a Busnes ei hun yn fentrus, yn ogystal â chynorthwyo eraill i fod yn fentrus.

Drwy ddatblygu yn y ffordd hon, mae'n rhaid ystyried Menter a Busnes fel endid masnachol yn hytrach nac fel asiantaeth sy'n gweithredu hyd braich oddi wrth y sector cyhoeddus.

Er y gellir cydnabod rôl Menter a Busnes yn y gwaith o hyrwyddo entrepreneuriaeth ymhlith siaradwyr Cymraeg, mae angen edrych mewn mannau eraill i gael cyngor gwrthrychol sy'n cael ei gyflenwi ar sail ddielw.

Mae'r 22 Menter Iaith sy'n gweithredu ar draws Cymru yn sefydliadau cymunedol lleol sy'n ymgymryd â nifer o rolau a phrosiectau gwahanol sy'n gysylltiedig â phlant a theuluoedd; ieuenctid; datblygu economaidd; datblygu cymunedol; treftadaeth a diwylliant. Gyda'i gilydd, mae ganddynt tua 300 o gyflogeion llawn amser ar draws Cymru, gyda gweithwyr llawrydd sy'n gweithio'n achlysurol neu ar sail dros dro yn ôl yr angen. Mae'r grwpiau yn cydnabod yr angen i feithrin a hyrwyddo entrepreneuriaeth yn lleol er mwyn cefnogi busnesau a darparu cyfleoedd i bobl weithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn sgîl hyn, mae gan y grwpiau lleol rôl hollbwysig yn y gwaith o greu cyfleoedd swyddi canolog a chefnogi llwybrau cyflogaeth eraill tebyg.

Mae'r llwyddiannau a'r heriau a wynebwr gan y 22 grŵp wedi creu canlyniadau amrywiol, yn bennaf oherwydd y materion sy'n berthnasol i'w hardaloedd lleol hwy ac, fel sy'n aml yn digwydd, yr unigolion dan sylw. O ystyried yr anghysondebau amlwg ar draws y grwpiau, mae'n annhebygol y byddai un dull gweithredu yn addas i bob un.

Mae Mentrau Iaith yn dymuno gweld datblygiad economaidd yn digwydd ochr yn ochr â'r nod o greu Cymru ddwyieithog. Maent yn teimlo ei bod yn bosibl sicrhau datblygiad economaidd drwy ystyried gallu yn yr iaith fel medr sy'n hwyluso'r broses o greu a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd gwaith. Maent hefyd o'r farn bod cyfleoedd i greu cyfleoedd cyflogaeth newydd i siaradwyr Cymraeg mewn meysydd nad ydynt wedi'u datblygu'n llawn eto.

Mae'r grŵp yn ymwybodol o'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd ym Mhrifysgol Caerdydd sy'n adolygu trefniadaeth y Mentrau Iaith ac mae'n gobeithio y bydd ei gasgliadau yn helpu i lywio eu datblygiad.

O ystyried y newid mewn amgylchiadau sy'n berthnasol i Fenter a Busnes, mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn credu bod angen ystyried sut mae'r gweithgarwch ar

lawr gwlad sy'n cael eu cynnal i hyrwyddo entrepreneuriaeth a datblygu economaidd drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu trefnu. Yn y cyd-destun hwn, dylid ystyried y dull mae Mentrau Iaith yn cael eu cefnogi a'u cylch gwaith.

11 Mae'r Grŵp yn argymhell y dylai Cymru ddysgu oddi wrth brofiad ac arfer da mewn cymunedau dwyieithog eraill fel gwlad y Basg, Quebec a Chatalwnia.

Cafodd nifer o diriogaethau, yn benodol gwlad y Basg, Catalwnia a Quebec eu hamlygu fel ardaloedd y gellir dysgu gwersi ganddynt o ran y ffordd y mae'r economi yn gweithredu a datblygu amgylchedd ddwyieithog.

Rydym yn sylweddoli bod y sefyllfa ym mhob un o'r ardaloedd gwahanol hyn yn wahanol i'w gilydd ac yn wahanol i'r sefyllfa yng Nghymru mewn sawl ffordd, ac y gallai fod yn amhriodol gwneud cymariaethau uniongyrchol rhyngddynt. Fodd bynnag, ni fyddai'r broses o ystyried y cyswllt rhwng dwyieithrwydd a'r economi yn gyflawn heb gyfeirio at yr enghreifftiau hyn. Yn wir, ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, rydym yn fodlon y byddai ymchwiliad strwythuredig pellach o'r sefyllfa mewn un neu ddwy o'r rhanbarthau hyn yn fuddiol.

Y Diwydiannau Creadigol

12 Yn y blynyddoedd diweddar, mae diwydiant y cyfryngau darlledu Cymraeg wedi dirywio. Mae'r Grŵp yn argymhell y dylid ystyried asesu effaith ieithyddol ac economaidd y newid hwn, a'r canlyniadau ar gyfer cyflogaeth yn y sector hwn yn y dyfodol. Dylid rhoi ystyriaeth bellach i'r ffordd orau o gefnogi cynhyrchwyr cynnwys yng Nghymru er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd yn y farchnad ehangach ar gyfer cynhyrchu cynnwys digidol.

Nid oes amheuaeth bod y ffordd rydym yn defnyddio'r iaith Gymraeg yn y gweithle wedi ffynnu yn y cwmnïau cyfryngau yng Nghymru, a flodeuodd yn dilyn sefydlu S4C. Roedd yr angen am raglenni ar gyfer y sianel yn gyfrifol am greu cwmnïau

bach, canolig ac, erbyn hyn, cwmnïau cynhyrchu preifat mawr. Gellir dadlau mai'r cwmnïau hyn oedd yr ychydig rai yng Nghymru lle'r oedd y Gymraeg yn cael ei defnyddio fel y brif iaith a ddefnyddiwyd yn y busnes. Mewn llawer o ffyrdd, roedd yr effaith gadarnhaol hon yn gwneud y Gymraeg yn "cŵl" ac roedd yn cael ei hystyried fel yr enghraifft orau o arfer gorau ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fasnachol.

Mae'r rhai sy'n cael eu cyflogi gan y cwmnïau hyn, yng Nghaerdydd ac mewn ardaloedd eraill, yn byw ac yn gweithio yn y cymunedau lleol, ac felly'n atgyfnerthu'r defnydd o'r Gymraeg yn y cymunedau hynny. Mae'n anodd dod o hyd i weithleoedd yn y rhan fwyaf o'r wlad, ar wahân i ysgolion a sefydliadau cyfrwng Cymraeg sy'n gysylltiedig â datblygu'r iaith, lle mae busnesau yn cael eu cynnal drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg yn bennaf. Mae cwmnïau cyfryngau darlledu yn eithriad i hyn yn aml, ond mae nifer a chryfder y cwmnïau hyn wedi dioddef o ganlyniad i'r toriadau yng nghyllideb S4C. Mae hyn yn awgrymu y gallai hyn gael effaith ganlyniadol, andwyol hirdymor ar yr iaith.

Yn eu tystiolaeth, fe amlygodd S4C y penderfyniadau anodd y mae eisoes wedi'u gwneud er mwyn sicrhau arbedion. Mae'r rhain yn cynnwys

".....Mae'r rhain yn cynnwys dau gylch colli swyddi a gostyngiad mewn staff o 25%, sydd wedi gostwng cost gyfartalog ei chynnwys am bob awr o £16,374 yn 2009 i £11,743 yn 2012, a'r penderfyniad i derfynu'r gwasanaeth manylder uwch Clirlun ym mis Rhagfyr 2012, gan arbed £1.5 m y flwyddyn. Mae penderfyniadau o'r fath wedi cael eu gwneud gyda'r nod o sicrhau'r gwerth gorau posib am arian gan leihau i'r eithaf yr effaith y bydd arbedion yn ei chael ar gynulleidfa S4C a chynnwys ar y sgrin. Mae'n debygol nad dyma fyddai'n digwydd oherwydd gostyngiadau yn ein cyllid yn y dyfodol, gan y byddai unrhyw ostyngiadau pellach mewn cyllid yn gostwng ein cyllideb cynnwys."

Nawr bod cyllideb S4C wedi'i chysylltu â ffi'r drwydded y BBC, mae angen ystyried effaith cyllido'r Sianel yn y dyfodol ar y sector cynhyrchu ac effaith ei ddirywiad ar yr economi ac ar yr iaith Gymraeg.

Mae'r penderfyniad diweddar gan S4C i archwilio ymarferoldeb adleoli swyddogaethau y tu allan i Gaerdydd yn cynnig y posibilrwydd i atgyfnerthu'r iaith ac, o bosibl, ysgogi datblygiad economaidd yn y gymuned honno. Fodd bynnag, un anfantais bosibl o wneud hyn, fyddai lleihau nifer y cyfleoedd swyddi sydd ar gael yn y brifddinas.

Ym mis Mehefin 2013, cyhoeddodd S4C ganlyniadau gwaith ymchwil annibynnol yr oedd wedi'i gomisiynu. Roedd hyn yn awgrymu bod gwariant cychwynnol o £63.7 miliwn gan S4C ar gyfer rhaglenni a chynnwys yn 2012, a fyddai'n cael eu creu gan gwmnïau annibynnol yng Nghymru, wedi creu effaith economaidd ychwanegol o £60.5 miliwn, effaith economaidd o £124.3 miliwn ar ddiwydiannau creadigol Cymru. Roedd yr adroddiad yn amcangyfrif, ers ei sefydlu ym 1982, bod S4C wedi buddsoddi mwy na £2.2 biliwn yn economi Cymru.

Er gwaethaf yr effaith gadarnhaol sylweddol hon ar yr economi o ganlyniad i weithgareddau S4C, a'i chyswllt â'r iaith Gymraeg, gwelwyd newidiadau arwyddocaol yn y degawd diwethaf sydd wedi effeithio ar y diwydiant cyfryngau darlledu. O ystyried y newidiadau sylfaenol sydd wedi'u gwneud yn S4C ac i'w chyllideb, mae'r Grŵp yn argymhell y dylai'r BBC, S4C a Llywodraeth Cymru gomisiynu gwaith ymchwil pellach i effaith ieithyddol ac economaidd debygol y newidiadau hyn a'r canlyniadau ar gyfer dyfodol cyflogaeth yn y sector hwn.

Mae yna hanes o gynhyrchu "cefn wrth gefn" gan gynhyrchwyr teledu iaith Gymraeg, gyda'r angen i hwyluso proses o greu fersiynau mewn ieithoedd eraill. Ar yr un pryd, mae yna nifer o gynrychiadau wedi'u prynu o diriogaethau dramor, a oedd wedi'u cynhyrchu'n wreiddiol ar gyfer y farchnad Gymraeg. Mae'n bwysig bod ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i sut y gellir cefnogi cynhyrchwyr cynnwys yng Nghymru i wneud y gorau o gyfleoedd i werthu eu cynnwys presennol a syniadau newydd i'r marchnadoedd rhyngwladol. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried hinsawdd bresennol darlledu yng Nghymru wrth i gyllidebau a chyfleoedd yn y ddwy iaith leihau.

Mae poblogrwydd e-lyfrau, “aps”, gemau electronig a chynhyrchion digidol tebyg wedi profi bod yna angen parhaus i arloesi, neu bydd rhagolygon y diwydiant cyhoeddi a chynhyrchu yn cyfyngu a bydd yn amherthnasol yn y byd modern.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod hyn drwy fabwysiadu cynllun gweithredu ar y cyfryngau a thechnolegau digidol sy'n cyflwyno ymrwymiad Llywodraeth Cymru i lywio datblygiadau ym maes technoleg a chyfryngau digidol yn yr iaith Gymraeg. Wedi'i gysylltu â hyn mae cronfa sydd â chyllideb flynyddol o £250,000 dros dair blynedd, a fydd yn cael ei defnyddio ar gynllun grantiau a rhaglen gaffael.

Cyhoeddwyd y grantiau cyntaf o dan y cynllun hwn ym mis Tachwedd 2013, ar ôl i fusnesau'r sector preifat yng Nghymru ddangos diddordeb cyfyngedig i ddatblygu prosiectau arloesol sy'n canolbwyntio ar gynnwys a meddalwedd y tu hwnt i grynhoad cul o gymwysiadau addysgol. Mae angen annog diddordeb pellach gan y sector preifat yng Nghymru ar gyfer cael gaffael ar y cymorth hwn, ac ehangu ei gwmpas, drwy ddatblygu cynnyrch gyda defnydd “bob dydd”. Yn ogystal â rhagor o gymorth busnes mwy cyffredinol, gall Llywodraeth Cymru annog datblygiadau o'r fath drwy gynhyrchu ystod o gynnwys gweledol lle bydd yr hawlfraint ar gael yn gyfleus i ddatblygwyr a chynhyrchwyr, a chan gymorth mwy arbenigol mewn cysylltiad â hawliau eiddo deallusol sy'n berthnasol i gynnwys digidol.

Adran 3

Sut all datblygu economaidd gynorthwyo'r defnydd o'r Gymraeg

Dulliau sy'n seiliedig ar ardaloedd

13 Mae'r Grŵp yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru archwilio'r bygythiadau a'r cyfleoedd ar gyfer yr iaith mewn dinasoedd ac ardaloedd trefol o ran datblygu economaidd, gyda golwg ar ddarparu ymatebion polisi addas.

Rhoddodd rhai o'r ymatebwyr sylwadau negyddol gan ddweud bod Caerdydd, yn benodol, yn denu siaradwyr Cymraeg o rannau eraill o Gymru, a'u bod yn cael eu denu gan ffordd o fyw trefol, cyfleoedd cyflogaeth gwell ac, yn benodol yn ein hardaloedd trefol mawr, y gallu i ddefnyddio'r iaith yn eang mewn sefyllfaoedd gwaith a chymdeithasol.

Dangosodd Cyfrifiad 2011 bod Caerdydd wedi profi cynnydd bychan yng nghyfran y boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg ar adeg pan oedd poblogaeth y ddinas yn tyfu'n sylweddol. Mewn termau gwirioneddol, rydym yn sôn am gynnydd o fwy na 4,200 sy'n golygu bod gan Gaerdydd fwy o siaradwyr Cymraeg (36,735), nac ardal sy'n cael ei hystyried fel un sy'n siarad Cymraeg yn bennaf, er enghraifft Ceredigion, sydd â 34,964 o siaradwyr Cymraeg.

Nid yw hon yn gymuned ansylweddol o siaradwyr Cymraeg ac ni ellir priodoli maint y gymuned i fewnfudwyr i'r ddinas, fel y dangosir gan y galw presennol am ysgolion Cymraeg yn y ddinas. Argymhellir y dylid cynnal gwaith ymchwil i nodi'r dull y mae datblygu economaidd a'r iaith Gymraeg yn rhyngweithio yn yr ardaloedd trefol mawr, yn arbennig rhanbarth dinas Caerdydd.

14 Mae'r Grŵp yn argymhell y dylid gweithredu ar y cyd ar ddatblygu economaidd a'r iaith drwy fabwysiadu dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar ardaloedd penodol. Byddai hynny'n fodd i ddynodi "parthau iaith economaidd arbennig".

Cafwyd nifer o gyflwyniadau a oedd yn cysylltu datblygu economaidd a'r iaith Gymraeg ar sail ofodol. Awgrymwyd y dylid dynodi ardaloedd penodol yn ardaloedd blaenorol yn hyn o beth. Yn yr ardaloedd hyn, dylid ystyried cydnabod datblygiadau sy'n rhoi gwerth i'r iaith Gymraeg er mwyn elwa a hyrwyddo ei hyfywedd.

Ymhlith yr ardaloedd a awgrymwyd roedd ardal Afon Menai; Porthmadog (yn cynnwys Ardal Fenter Eryri); Aberystwyth; Caerfyrddin; Cwm Aman/Tawe (yn cynnwys Ystradgynlais) ardaloedd teithio i'r gwaith, ond gellir ychwanegu Dyffryn Teifi i'r rhain, gan gysylltu â'r ardal dwf leol, a Chaerdydd.

Mae gan ardaloedd Ynys Môn ac Eryri Ardaloedd Menter dynodedig gyda Dyffryn Teifi wedi'i nodi fel lleoliad ar gyfer ardal dwf bosibl, yn seiliedig ar nifer o "nodau". Bwriad yr ardaloedd hyn fyddai cysylltu datblygu economaidd a'r iaith, fel "ardaloedd economaidd arbennig", gan roi blaenoriaeth i gynhyrchu cyflogaeth o ansawdd pan fydd gallu yn yr iaith Gymraeg yn ystyriaeth gadarnhaol. Ochr yn ochr â buddsoddi mewn telegyfathrebu a band eang cyflym, byddai'n bosibl eu hyrwyddo fel lleoliadau addas ar gyfer datblygu canolfannau gwasanaeth a rennir yn y dyfodol, fel sydd wedi digwydd ym Mhenrhyndeudraeth a Phorthmadog, neu sefydliadau eraill sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn yr iaith Gymraeg ar gyfer y sector cyhoeddus a phreifat. Dylid cynnwys Caerdydd, yn symbolaidd fel y brifddinas ond hefyd, yn bwysicach yn y cyd-destun hwn, fel calon dinas-ranbarth sydd ag economi sy'n gymharol fywiog ac sy'n darparu cyd-destun gwahanol i'r ardaloedd sydd â phoblogaethau llai.

Ar lefel fwy cyffredinol, byddai dull gweithredu o'r fath hefyd yn hwyluso dull gweithredu integredig ar gyfer y seilwaith trafndiaeth, trafndiaeth gyhoeddus a chysylltedd band eang cyflym, gyda'r amcan penodol o sicrhau nad yw cymunedau

Cymraeg eu hiaith o dan anfantais berthynol fel lleoliadau posibl ar gyfer buddsoddiadau a chreu swyddi.

15 Gan gydnabod llwyddiant ymddiriedolaethau datblygu cymunedol megis y Galeri, Caernarfon (Cwmni Tref Caernarfon gynt) o ran cefnogi adfywio economaidd, mae'r Grŵp yn argymhell y dylid ariannu prosiectau peilot mewn trefi yn Ardaloedd Menter Ynys Môn ac Eryri ac yn Nyffryn Teifi, a ger yr ardaloedd hynny.

Sefydlwyd Galeri Caernarfon dros ugain mlynedd yn ôl er mwyn adfywio canol y dref hanesyddol, tref sy'n cael ei hystyried fel tref sydd â'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Ar ôl elwa ar gyllid sbarduno gan y llywodraeth ganolog, mae'r cwmni wedi gweld y cyllid hwn yn datblygu i brynu eiddo arall a gwneud gwelliannau pellach. O ganlyniad i'w llwyddiant, gofynnodd Cyngor Gwynedd i'r cwmni weithredu ar ei ran mewn nifer o setliadau llai er bod yr effaith gyffredinol yn is oherwydd diffyg buddiannau clystyru eiddo. Mae'r gwaith wedi denu gweithgarwch ategol gan Arianrhod, grŵp o fuddsoddwyr preifat. Gyda'i gilydd, mae'r sefydliadau wedi darparu llety i nifer o fusnesau gwahanol sy'n defnyddio'r Gymraeg fel eu hiaith fusnes bob dydd.

Astudiaeth Achos: Galeri Caernarfon

Mae Galeri Caernarfon Cyf., Cwmni Tref Caernarfon Cyf. gynt, yn fenter gymunedol ddielw sy'n gweithredu fel Ymddiriedolaeth Ddatblygu. Gweledigaeth Galeri Caernarfon Cyf yw bod: "unrhyw beth yn bosibl...drwy feddwl yn greadigol a gweithredu cynaliadwy". Er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon, bydd y cwmni yn: "gweithredu prosiectau cynaliadwy mewn ffordd mewn ffordd greadigol i wireddu potensial diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol y gymuned leol a'r cyffiniau."

Cafodd y cwmni ei sefydlu ym 1992 a bu'n gweithio'n galed i wella delwedd canol tref Caernarfon drwy brynu adeiladau gwag (siopau, swyddfeydd a thai) o fewn y dref gaerog. Hyd yma, mae'r

Ymddiriedolaeth wedi adnewyddu ac ailddatblygu 20 o eiddo gwag a diffaith yng Nghaernarfon.

Cafodd Canolfan Mentrau Creadigol Galeri, datblygiad gwerth £7.5m ei agor yn swyddogol ym mis Ebrill 2005 a hwn yw prosiect mwyaf a mwyaf uchelgeisiol prosiect yr ymddiriedolaeth hyd yma. Roedd agor Galeri yn cynrychioli datblygiad arwyddocaol i'r celfyddydau a'r diwydiannau creadigol yng Ngogledd Cymru. Mae'r Galeri yn cynnwys: theatr a sinema, unedau busnes / gwaith 24 awr, Gofod Celf, dwy stiwdio ymarfer fawr a Chaffi (sy'n gweini cynnyrch lleol ffres).

Gallai trefi megis Amlwch a Llangefni, yn ogystal â threfi yn Nyffryn Teifi elwa ar ddull gweithredu o'r fath a fyddai'n gallu adfywio prif strydoedd a darparu cyfleoedd i fusnesau sefydlu mewn eiddo a fyddai'n cael eu prydlesu ar delerau ffafriol.

Gallai rhaglenni cymorth penodol a fyddai'n cael eu darparu gan yr awdurdodau lleol neu gyrrff megis Antur Teifi a Menter Môn ategu'r datblygiadau ffisegol.

16 Mae'r Grŵp yn argymhell addasu'r model a ddarparwyd gan Gwmni Prentisiaeth Coleg Menai er mwyn darparu prentisiaethau Cymraeg mewn busnesau sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith.

Mae Grŵp Llandrillo Menai wedi sefydlu cwmni asiantaeth cyflogi prentisiaid – Cwmni Prentis Menai Cyf – fel cyfrwng i gynyddu nifer y prentisiaid adeiladu a pheirianeg yng Ngogledd-orllewin Cymru. Mae asiantaeth cyflogi prentis yn drefniant pan fydd y coleg yn cyflogi prentisiaid ar gontract tymor sefydlog ac yna'n eu lleoli gyda chwmnïau i wneud profiad gwaith.

Y coleg sy'n gyfrifol am gyfreithiau cyflogaeth ac felly gallant ddarparu ffordd symlach a mwy cost effeithiol i fusnesau ymgysylltu â phrentisiaid, pan na fyddai hynny'n bosibl yn ariannol fel arall. Mae'r cwmni yn cyfrannu at gostau cyflog y prentis ar gyfradd ostyngol a fydd, gobeithio, yn annog mwy o fusnesau yn y rhanbarth i gymryd rhan yn y cynllun.

Cynllun strategol yr asiantaeth yw cynyddu nifer y busnesau sy'n barod i gymryd rhan mewn lleoliadau prentisiaeth a datblygu cronfa o bobl ifanc lleol â chymwysterau galwedigaethol sy'n meddu ar yr holl sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y dyfodol.

Cynlluniwyd y cynllun i weithredu mewn ardal lle mae Busnesau Bach a Chanolig yn ei chael yn anodd i dalu costau prentisiaid arferol a/neu pan fydd diffyg mas critigol o fusnesau. Cydnabyddir bod angen adnoddau ariannol sylweddol er mwyn gweithredu'r cynllun a gallai fod yn briodol gweithredu fel cynllun peilot i ddechrau mewn ardal megis Dyffryn Teifi. Dylid archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd i ariannu'r cynllun.

Seilwaith

17 Mae'r Grŵp yn argymhell y dylai'r Gymraeg fod yn ystyriaeth wrth gyflwyno'r rhaglen Band Eang Cyflym lawn yn y dyfodol agos fel bod y busnesau hynny yn yr ardaloedd Cymraeg eu hiaith fel Dyffryn Teifi yn gallu mwynhau'r manteision sydd ar gael mewn ardaloedd yng ngogledd orllewin Cymru ar hyn o bryd.

Cafodd pwysigrwydd seilwaith digidol modern ei grybwyll yn nifer o'r sylwadau o ran ei bwysigrwydd wrth gynnal busnes a'r dull y gall wneud ardaloedd yn fwy deniadol o ystyried y ffordd mae rhai unigolion yn defnyddio cynnwys sy'n cael ei gynhyrchu a'i ddosbarthu dros nifer o lwyfannau.

Mae nifer o fusnesau yn yr ardaloedd hynny lle mae buddsoddiad wedi'i wneud yn y seilwaith ffibr wedi elwa ar welliannau sylweddol i'w cyflymder lawrlwytho a lanlwytho a gall wneud gwahaniaeth ym mhenderfyniad cwmni i leoli i ardaloedd penodol ai peidio.

Cydnabyddir bod bwlch arwyddocaol rhwng cynllunio ac uwchraddio'r rhwydwaith a chyflwyno'r newidiadau ac mae yna nifer o fathau gwahanol o bwysau o ran blaenoriaeth, fodd bynnag, argymhellir y dylid ystyried yr iaith Gymraeg pan fydd ardaloedd yn cael eu hystyried i'w blaenoriaethu.

Astudiaethau Achos: Cyflym Cymru a Superfast Cornwall

Mae Mike Carey, Rheolwr Gyfarwyddwr Mototec, cwmni ceir o Dde Cymru wedi bod yn rhedeg busnes llwyddiannus o Bontllanfraith, Caerffili am fwy nag 20 mlynedd. Un o'r rhesymau dros y llwyddiant hwn yw parodrwydd Mike i fabwysiadu technolegau newydd yn gyflym er mwyn helpu ei fusnes i ffynnu mewn marchnad galed. Yr enghraifft ddiweddaraf o hyn yw bod y cwmni wedi cofrestru i gael band eang ffibr pan gafodd ei gyflwyno am y tro cyntaf yn lleol. Mae Mototec yn defnyddio band eang ffibr yn helaeth drwy'r busnes o bwrcasu ar-lein i'r cymwysiadau sydd eu hangen i gysylltu offer diagnostig cymhleth. Mae'r band eang ffibr wedi arwain at arbedion i'r prosesau cynhyrchiant ac arbedion effeithlonrwydd oherwydd gellir darparu gwybodaeth o ddiagnosis am namau ar unwaith i'r technegwyr. Mae Mike hefyd yn defnyddio band eang ffibr i ymchwilio i bryniannau mawr ar-lein, gan sicrhau ei fod yn sicrhau'r cytundeb gorau ac yn cael gwerth am arian, cynilion y gall ail-fuddsoddi yn ei fusnes. Roedd sefydlu busnes newydd ym mis Ionawr 2013 yn her mewn cyfnod o ansicrwydd economaidd, ond un yr oedd Ian Drury, Cyfarwyddwr Ultranyx yn Ne Cymru yn barod i'w gymryd. Mae Ultranyx yn gwmni arbenigol sy'n darparu Cyfrifiaduron Perfformiad Uchel, cymwysiadau cyfrifiaduron a systemau peirianeg wedi'u haddasu. Mae pob system yn cael ei chynllunio a'i hadeiladu at ofynion penodol gofynion cleientiaid sy'n golygu bod sicrhau prosesau cyfathrebu gwybodaeth gyda chwsmeriaid drwy'r DU yn hollbwysig. Nid yw'n fath o fusnes y byddech yn disgwyl ei weld fel arfer yn cael ei ddatblygu mewn pentrefan bach gwledig yn ne Cymru. Ond gyda band eang ffibr yn cael ei gynnig fwyfwy, mae lleoliad yn llai o broblem i fusnesau newydd sy'n dechrau yng Nghymru. Mae Headforwards yn gwmni datblygu meddalwedd ar gontract allanol yng Nghanolfan Arloesedd Poole. Mewn dim ond dwy flynedd, mae'r cwmni wedi cynyddu nifer ei staff o 5 i 38. Cafodd y cwmni ei sefydlu'n wreiddiol i ddarparu gwasanaethau allanol i gwmni telathrebu mwyaf y

byd, y cwmni mawr NTT o Japan, a bellach mae'n denu cleientiaid rhyngwladol mawr eraill. Dywedodd y Cyfarwyddwr Toby Parkins: "Mae cael cyswllt cyflym iawn wedi cael effaith bwerus iawn ar farn pobl am ein cwmni ac mae'n golygu ein bod bellach yn cael ein hystyried fel arweinwyr yn y maes. Rydym yn gwbl ddibynnol ar ein cyswllt ffibr. Heb gyswllt cyflym iawn, ni fyddai NTT wedi dewis gweithio gyda ni ac ni fyddai ein cwmni yn bodoli."

18 Mae'r Grŵp yn argymhell y dylid cynnal ymchwil i archwilio effaith gwella'r rhwydwaith ffyrdd a rheilffyrdd a'r gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus sy'n rhedeg rhwng yr ardaloedd Cymraeg eu hiaith a'r canolfannau cyflogaeth ar hyd y prif goridorau.

Yn Y Gynhadledd Fawr yn Aberystwyth, cafwyd cyflwyniad diddorol ar y newidiadau yn sefyllfa'r iaith yng Ngwynedd rhwng 2001 a 2011. Roedd yn ystyried y sefyllfa mewn tri setliad, Llanrug, Clynog a Blaenau Ffestiniog, gan gyfeirio at batrymau cyflogaeth, cryfder perthynol yr iaith, ansawdd bywyd ac amlygu'r effaith gadarnhaol sydd wedi dod yn sgîl cysylltiadau gwell y ffyrdd rhwng y setliadau a choridor yr A55. Mae'n werth ymchwilio ymhellach i'r ffenomen hon, nid yn unig mewn cysylltiad â'r ardaloedd hyn ond ymhellach.

Er bod y dystiolaeth a gyflwynwyd yn y gynhadledd yn ymwneud yn bennaf â'r gallu i greu cyfleoedd swyddi, mae'n awgrymu'r posibiladau sy'n gysylltiedig ag ystyried gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus yn y cyd-destun hwn ac ymhellach.

19 Mae'r Grŵp yn argymhell y dylid datblygu ymhellach rôl y cymdeithasau tai o ran hyrwyddo a hwyluso datblygu economaidd mewn cymunedau.

Er mai prif rôl cymdeithasau tai yw datblygu cartrefi newydd, eiddo rhent, a gwneud atgyweiriadau a gwelliannau i gartrefi presennol, a darparu gwasanaethau rheoli tai, mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod y cymdeithasau wedi datblygu ystod eang o fentrau er budd eu tenantiaid a'r gymuned leol. Mae'r adroddiad 'Socio-Economic Impact of the Welsh Housing Association and Community Mutual Sector 2013' gan yr Uned Ymchwil i Economi Cymru, a gomisiynwyd gan Gartrefi

Cymunedol Cymru yn darparu trosolwg defnyddiol o effaith Cymdeithasau Tai ar yr economi leol a chymunedau lleol yng Nghymru.

Mae'r ddogfen "Gwella Bywydau a Chymunedau", a gyhoeddwyd yn 2010, yn nodi'r angen i wneud y defnydd gorau o fuddsoddiadau mewn tai a gweithgarwch adfywio arall er mwyn creu mwy o swyddi a chyfleoedd hyfforddi a gwella ymddangosiad ac ymdeimlad cymunedau, a'r gwasanaethau a'r cyfleusterau sydd ar gael i bobl leol.

Er nad oes unrhyw gyfeiriad penodol at yr iaith Gymraeg yn y ddogfen, gallai defnyddio ei ganfyddiadau a'i argymhellion ar gyfer ardaloedd sy'n siarad Cymraeg yn bennaf fod yn berthnasol yn y cyd-destun hwn. Bydd y prif weithgareddau yn gyfrannwr pwysig i'r galw am wasanaethau a chyfleusterau lleol, a fydd yn cefnogi busnesau lleol, yn darparu swyddi, sgiliau a chyfleoedd hyfforddiant, gyda phob un o'r rhain yn atgyfnerthu'r gymuned leol ac, yn eu tro, sefyllfa'r iaith.

Fel y dangosir yn yr astudiaeth achos isod, pan fydd y cymdeithasau'n defnyddio dull gweithredu arloesol i gyflenwi eu gweithgareddau prif ffrwd a gweithio gyda phartneriaid eraill yn gwireddu'r potensial i gynyddu'r buddiannau i'r gymuned leol.

Astudiaeth Achos: Congl Meinciau, Botwnnog

Cafodd y ganolfan ei sefydlu fel rhan o strategaeth ehangach i ddarparu tai fforddiadwy mewn ardal incwm isel, i ddarparu cyfleoedd cyflogaeth newydd drwy annog a chefnogi mentrau newydd ac i hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg fel cyfrwng y busnes. Roedd y prosiect yn ymateb i'r cymorth a gyhoeddwyd gan y Dirprwy Weinidog dros Adfywio yn 2008.

Mae'r prosiect, sydd wedi'i leoli ym Motwnnog ym Mhen Llŷn, yn darparu 12 o dai fforddiadwy a chanolfan fenter sy'n darparu unedau busnes, cyfleusterau cymunedol a gofod i fusnesau bach newydd i sefydlu a datblygu. Cafodd ei ariannu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd a Chymdeithas Tai Eryri, y Gymdeithas Tai leol.

Agorodd y ganolfan ei drysau am y tro cyntaf ar ddechrau 2012 ac mae wedi bod yn destun dwy astudiaeth effaith economaidd dau gam, a gwblhawyd ym mis Mawrth 2013. Er bod yr adroddiad yn pwysleisio ei bod yn rhy gynnar creu casgliadau pendant, mae'n datgan bod y Ganolfan ar y trywydd cywir i adennill ei chostau rhedeg o fewn 24 mis, mae 60% o'r gofod busnes wedi'i osod ar brydlesi, mae'r tenantiaid yn hapus iawn ar y cyfan ac mae'n lleoliad poblogaidd i fusnesau a phobl leol gwrdd.

Er y derbynnir ei bod yn rhy gynnar datgan bod y ganolfan yn llwyddiant ysgubol, mae'n darparu tystiolaeth ddigonol i'n hannog i argymell y dylid cynnal gwaith ymchwil pellach ar y ffordd y gall cymdeithasau tai hwyluso gweithgarwch o'r fath mewn cysylltiad â lles yr iaith yn y dyfodol mewn ardaloedd eraill addas.

Cymorth Busnes

20 Mae'r dystiolaeth o'r adolygiad yn awgrymu bod gwahaniaeth rhwng mentrau bach a busnesau mwy o ran eu defnydd o'r Gymraeg. Mae'r Grŵp yn argymell y dylai fod ystod o gymorth ymarferol ar gael i fentrau bach sy'n cydnabod bod manteision masnachol i'w cael o gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg.

Derbyniodd y Grŵp nifer o gyflwyniadau ar y cymorth sydd ar gael i fusnesau bach sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn eu gweithgareddau masnachol. Pwysleisiwyd yn aml bod angen i'r busnes feithrin ymagwedd gadarnhaol tuag at yr iaith, yn hytrach na gorfodi pobl i'w defnyddio. Er mwyn hwyluso gyda hyn, awgrymwyd y byddai'r cymorth mwyaf gwerthfawr yn cael ei ddarparu drwy gymorth ymarferol a fyddai'n cwmpasu nifer o sefyllfaoedd busnes amrywiol megis y gost o gyfieithu dogfennau, arwyddion ac yn y blaen. Byddai'n bosibl ymestyn yr egwyddor hon hefyd i helpu staff i gyflawni a gwella cymhwyster ieithyddol.

Astudiaeth Achos: Busnes manwerthu Sir Gaerfyrddin (nid yw'n siarad Cymraeg)

Nid oes gennym bolisi ffurfiol ar yr iaith Gymraeg. Pan fyddwn yn hysbysebu swydd rydym yn datgan y byddai'r gallu i siarad Cymraeg yn fanteisiol.

Hoffwn ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn ein busnes oherwydd credaf fod ei habsenoldeb, yn rhan o fygythiad cyffredinol i iaith a diwylliant y wlad. Credaf fod hynny'n rheswm digonol, fodd bynnag, credaf ei fod hefyd yn dangos bod y busnes wedi'i wreiddio yn yr ardal a'i fod yn parchu'r siaradwyr Cymraeg niferus sy'n defnyddio ein heiddo.

Yn fasnachol, credaf y byddai'n cael rhywfaint o effaith am y rhesymau uchod....mae ymdeimlad o hunaniaeth yn ychwanegu rhywbeth i'r brand yn fy marn i. Credaf fod angen i ni ganfod ffyrdd i ddefnyddio'r iaith Gymraeg mewn ffyrdd mwy creadigol fel busnes. Nid wyf yn hollol siŵr mai cael popeth yn ddwyieithog yw'r ateb (er fy mod yn derbyn y gallai fod yn ateb)...rwy'n credu bod angen cyflwyno'r defnydd o'r iaith ym maes busnes fel rhan o weledigaeth fwy ar gyfer yr iaith Gymraeg. Mae'r problemau sy'n codi yn rhai amlwg o ran ymarferoldeb. Weithiau mae'n gwestiwn syml o ofod ac amser. Yn bersonol, rwy'n credu y dylai fod yn flaenoriaeth, yn arbennig mewn mannau cyhoeddus ac am y rheswm hwnnw rydym yn chwilio am ffyrdd o symud hyn ymlaen tuag at sicrhau cymaint o arwyddion Cymraeg â phosibl. Credaf fod angen edrych ar hyn yng nghyd-destun y beichiau ar fusnesau bach yn gyffredinol....gallaf weld yr atyniad o orfodi'r defnydd o'r iaith ond credaf y gallai hynny fod yn wrthgynhyrchiol. Felly dyna yw'r broblem. Sut y gellir galluogi busnesau i wneud hyn?

Efallai y byddai'n bosibl cysylltu cyllid i'r wobr – nid wyf yn credu bod hyn yn ariangar. Credaf ei fod yn cydnabod bod busnesau bach a chanolig eu maint yn arbennig yn cael digon o drafferth fel y mae, ac nid yw'n amser i roi mwy o bwysau arnynt a fyddai'n cynyddu eu costau.

Mae cynllun o achredu sy'n pwysleisio lefel y Gymraeg sy'n cael ei defnyddio mewn busnes hefyd wedi'i awgrymu, ond mae angen ystyriaeth bellach yn arbennig ynglŷn â'r corff achredu.

Adran 4

Sut all y sector cyhoeddus gynorthwyo defnydd cynyddol o'r Gymraeg

Caffael

21 Nid yw'r diffiniad o fanteision cymunedol sy'n deillio o'r broses gaffael bresennol yn y sector cyhoeddus yn cyfeirio at y manteision i'r Gymraeg a siaradwyr Cymraeg. Mae'r Grŵp yn argymhell y dylid ehangu'r darpariaethau'n ymwneud â sicrhau cydraddoldeb ac amrywiaeth er mwyn cynnwys yr ystyriaethau hyn.

22 Mae'r Grŵp yn argymhell, lle bo'n briodol, y dylai fod yn ofynnol i'r rheini sy'n tendro ar gyfer contractau yn y sector cyhoeddus ddangos eu bod yn gallu darparu gwasanaeth yn ddwyieithog, yn enwedig os yw'n cael ei ddarparu i'r cyhoedd.

Nid yw'r ddogfen bolisi Llywodraeth Cymru "Budd i'r Gymuned: Sicrhau'r Gwerth Gorau am Arian Cymru", a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2010, yn gwneud unrhyw gyfeiriad at yr iaith Gymraeg mewn cysylltiad â pholisi Caffael. Rydym yn argymhell y dylai'r darpariaethau sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb, gan ystyried y datganiad yn y canllaw "Nid mater o gyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol yn unig yw ystyried materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb ym maes caffael.... ond hefyd gall helpu caffaelwyr cyhoeddus i gyflenwi gwasanaethau o ansawdd gwell a sicrhau gwell gwerth am arian" gyfeirio'n benodol at yr iaith Gymraeg a pholisïau Llywodraeth Cymru ynghylch yr iaith.

Grantiau

23 Mae'r Grŵp yn argymhell y dylai fod yn ofynnol i fusnesau sy'n cael grant gan Lywodraeth Cymru ddangos eu bod yn gallu darparu gwasanaeth yn ddwyieithog. Dylai unrhyw arwyddion neu ddeunyddiau hysbysebu sy'n gysylltiedig â phrosiect sy'n derbyn cymorth grant fod yn ddwyieithog.

Gwnaed nifer o sylwadau ar y ffaith nad yw contractau'r sector cyhoeddus, a'r dyfarniadau cymorth grant, yn cynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â Llywodraeth Cymru, yn cynnwys unrhyw ofyniad i ddarpar gyflenwyr arsylwi canllawiau a pholisïau'r iaith Gymraeg wrth gyflenwi eu gwasanaethau.

Adran 5

Y defnydd o ddata ar y farchnad lafur i oleuo datblygiad yr iaith yn yr economi Gymreig

24 Mae'r Grŵp yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n darparu adnoddau i gasglu tystiolaeth o effaith y Gymraeg ar yr economi a'r cysylltiadau rhyngddynt. Mae angen y dystiolaeth hon i argyhoeddi busnesau o fanteision gweithredu'n ddwyieithog.

Mae'r Grŵp yn ymwybodol o'r gwaith y mae'r Adran Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth ag IFF Research, yn ei wneud ar hyn o bryd i ddatblygu ei ddealltwriaeth o anghenion sgiliau Cymraeg cyflogwyr ar draws Cymru (mae gwaith maes wedi'i drefnu ar gyfer mis Medi a mis Hydref 2013). Rhagwelir y bydd y gwaith hwn yn darparu tystiolaeth ar effaith sgiliau'r iaith Gymraeg ar elw busnesau, y rhesymau pam nad oes gan rai cyflogwyr unrhyw angen am sgiliau Cymraeg, a pha gymorth busnes sydd ei angen ar gyfer yr iaith Gymraeg. Argymhellir bod y dystiolaeth hon yn cael ei rhannu ar draws Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid ehangach.

Adran 6

Trefn Lywodraethol i'r Dyfodol

25 Mae'r Grŵp yn argymhell sefydlu panel annibynnol a fyddai'n rhoi cyngor i'r Gweinidog ar sut y gall y Gymraeg fanteisio ar ddatblygu economaidd a chyfrannu ato, gan adeiladu ar yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiad hwn.

Mae'r Paneli Sector sy'n cael eu penodi gan y Gweinidog gyfraniad pwysig i'w wneud wrth ddarparu cyngor o safbwynt y sector preifat ar faterion sy'n effeithio ar y sector penodol y maent yn ymwneud â hwy. Er bod y cyd-destun yn wahanol yn yr achos hwn, mae rhinweddau'r dull gweithredu yn golygu y gallai panel o'r fath gynnig cyngor ar ddatblygu polisi sy'n deillio o adran y Gweinidog yn ogystal â pholisïau o feysydd eraill, mewn adrannau eraill a chan Gomisiynydd y Gymraeg.

Pe byddai'r awgrym hwn yn cael ei ffafrio, byddai'r Grŵp yn gwneud argymhelliad pellach y dylid archwilio rhinweddau, a dull y broses o integreiddio gwaith y panel gyda'r gwaith sy'n cael ei wneud yn yr Adran Addysg a Sgiliau, gyda'r swyddogaethau Ysgrifenyddiaeth yn cael eu rhannu rhwng y ddwy adran.

Bydd aelodaeth y panel yn hollbwysig i'w lwyddiant, ac rydym yn argymhell bod y gymuned fusnes yn darparu'r mwyafrif o'i aelodaeth. Rhagwelir y byddai'r ffocws ar ddarparu arweiniad clir i gynghori'r Gweinidog, canolbwyntio ar gyflenwi, yn hytrach na chynnal adolygiadau pellach.

Llywodraeth Cymru

26 Mae'r Grŵp yn cydnabod mai rôl Llywodraeth Cymru yw rhoi cefnogaeth ac arweiniad i fusnesau ar ddefnyddio'r Gymraeg a symleiddio'r broses, yn hytrach na'u gorfodi i'w defnyddio.

27 Mae'r Grŵp yn argymhell bod y trefniadau presennol ar gyfer monitro materion cydraddoldeb yn Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn cael eu hadolygu gyda golwg ar gyflwyno dull gweithredu mwy strategol ar gyfer delio â materion yn ymwneud â'r Gymraeg, gan gynnwys y modd y mae'r Adran yn gweithio gyda busnesau.

Mae'r argymhellion hyn yn cydnabod yr angen i ddarparu cyngor cadarn i swyddogion sy'n ceisio delio â materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn eu cyswllt beunyddiol gyda busnesau, datblygu polisiau a gweinyddu rhaglenni cymorth i fusnesau. Mae'r Grŵp yn ymwybodol bod gofyniad i'r swyddogion gynnal Asesiad Effaith Polisi'r Gymraeg yn ystod y broses datblygu polisi. Dylid asesu effeithiolrwydd y weithdrefn hon.

Mae gan Gomisiynydd y Gymraeg gyfrifoldebau clir, yn cynnwys cynnal dialog gyda busnesau a rôl reoliadol. Mae yna angen clir i sicrhau bod gweithgareddau cymharol y Comisiynydd a Llywodraeth Cymru yn sicrhau elfennau ychwanegol, yn hytrach na dyblygiad.

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'r trafodaethau ar Safonau'r Gymraeg yn parhau. Mae llawer o ddryswch a diffyg eglurder ynghylch y goblygiadau i'r Sector busnes. Er mwyn lleddfu'r ansicrwydd, mae yna angen clir i sicrhau bod help digonol a phriodol ar gael i'r sector busnes er mwyn eu cynorthwyo gyda'r safonau.

Galw am Dystiolaeth - Y Cyfranogwyr

Biopower UK

Business in Focus

CBI

Christopher David

Clive James

Comisiynydd y Gymraeg

Cwmni Theatr Arad Goch

Cymdeithas yr Iaith

Cyngor Llyfrau Cymru

Dalen Newydd

David Ludlow

David Wyn Williams

Dyfodol i'r Iaith

Eiry Thomas

Ffederasiwn Busnesau Bach

Gwyn Jones

Gwyn Roberts

Huw Marshall

ICAEW (Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig)

John Walker

Medi Jones

Menter a Busnes

Mentrau Iaith

Enw wedi'i atal

RWE

S4C

Tinopolis

UCAC

Uned Technolegau Iaith, Prifysgol Bangor

Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig

Y Ganolfan Cynllunio Iaith

Adroddiadau perthnasol diweddar

Comisiynydd y Gymraeg

Cyflwyniad i waith Comisiynydd y Gymraeg

Cynllun Strategol Comisiynydd y Gymraeg 2013-15

Safonau mewn perthynas â'r Gymraeg: beth yw'ch barn?

Potensial y Gymraeg i gyfrannu at wireddu amcanion Rhaglenni Ariannu Ewropeaidd 2014–2020

Bwrdd Yr Iaith Gymraeg

Y Gymraeg ac Adfywio

Strategaeth Sector Preifat

Llywodraeth Cymru

Iaith Fyw: iaith byw

Datblygu Economaidd a'r Iaith Gymraeg Rhaglen Waith

Datblygu Economaidd a'r Iaith Gymraeg - Adolygiad Blynyddol Cyntaf y Grŵp Trafod Iaith-Economi

Datblygu Economaidd a'r Iaith Gymraeg - Ail Adroddiad Cynnydd y Grŵp Trafod Iaith-Economi

Y Ganolfan Cynllunio Iaith

Iaith fyw: dweud eich dweud. Canlyniadau'r ymarferiadau ymgynghori. Gorffennaf 2013

Dylan Jones-Evans, Piers Thompson a Caleb Kwong (2011) Entrepreneurship amongst Minority Language Speakers: The Case of Wales. Astudiaethau Rhanbarthol, Cyfrol. 45.2, t. 219–238, February 2011

THE ADVANTAGES OF THE WELSH LANGUAGE IN THE WORLD OF WORK. (2010)
Papur Briffio ac Astudiaeth Achos. Trywydd ar ran Gyrfa Cymru

Use of the Welsh Language in the Private Sector: Canolfan Astudiaeth Achos Ymchwil
Busnes a Gwybodaeth am y Farchnad Lafur

Uned Ymchwil i Economi Cymru (2013) Blwyddyn 6: The Socio-Economic Impact of the
Welsh Housing Associations and Community Mutual Sector